

# Pum Neges Allweddol ar gyfer Addysg Gynhwysol

Rhoi Theori Ar Waith



Inclusive Education in Europe



**EUROPEAN AGENCY**  
for Special Needs and Inclusive Education



# **PUM NEGES ALLWEDDOL AR GYFER ADDYSG GYNHWYSOL**

**Rhoi Theori Ar Waith**

**Yr Asiantaeth Ewropeaidd dros Anghenion Arbennig ac Addysg Gynhwysol**



Sefydliad annibynnol a hunanlywodraethol yw'r Asiantaeth Ewropeaidd dros Anghenion Arbennig ac Addysg Gynhwysol (yr Asiantaeth), a gefnogir gan aelod wledydd yr Asiantaeth a'r Sefydliadau Ewropeaidd (y Comisiwn a'r Senedd).



Ariannwyd y cyhoeddiad hwn gyda chymorth y Comisiwn Ewropeaidd. Adlewyrcha'r cyhoeddiad hwn safbwyntiau'r awdur yn unig, ac ni ellir dal y Comisiwn yn gyfrifol am unrhyw ddefnydd a allai gael ei wneud o'r wybodaeth ynddo.

Nid yw'r safbwyntiau a fynegir gan unrhyw unigolyn yn y ddogfen hon o reidrwydd yn cynrychioli safbwyntiau swyddogol yr Asiantaeth, ei haelod wledydd neu'r Comisiwn. Ni ellir dal y Comisiwn yn gyfrifol am unrhyw ddefnydd a allai gael ei wneud o'r wybodaeth yn y ddogfen hon.

Golygydd: Victoria Soriano, Staff yr Asiantaeth

Caniateir detholiadau o'r ddogfen hon ar yr amod y cyfeirir yn glir at y ffynhonnell. Dylid cyfeirio fel a ganlyn at yr adroddiad hwn: Yr Asiantaeth Ewropeaidd dros Anghenion Arbennig ac Addysg Gynhwysol, 2014. *Pum Neges Allweddol ar gyfer Addysg Gynhwysol. Rhoi Theori Ar Waith.* Odense, Denmarc: Yr Asiantaeth Ewropeaidd dros Anghenion Arbennig ac Addysg Gynhwysol

Gyda'r bwriad o fod ar gael ar raddfa fwy, mae'r adroddiad hwn ar gael mewn 23 iaith a fformatau electronig cwbl hydrin, sydd ar gael ar wefan yr Asiantaeth: [www.european-agency.org](http://www.european-agency.org)

ISBN: 978-87-7110-563-6 (Electronig)

ISBN: 978-87-7110-564-3 (Wedi'i argraffu)

© European Agency for Special Needs and Inclusive Education 2014

Ysgrifenyddiaeth  
Østre Stationsvej 33  
DK-5000 Odense C Denmarc  
Ffôn: +45 64 41 00 20  
[secretariat@european-agency.org](mailto:secretariat@european-agency.org)

Swyddfa Brwsel  
Rue Montoyer, 21  
BE-1000 Brwsel Gwlad Belg  
Ffôn: +32 2 213 62 80  
[brussels.office@european-agency.org](mailto:brussels.office@european-agency.org)

[www.european-agency.org](http://www.european-agency.org)



## CYNNWYS

<b>RHAGYMDRODD .....</b>	<b>5</b>
<b>CRYNODEB GWEITHREDOL.....</b>	<b>6</b>
<b>CYN GYNTED Â PHOSIBL.....</b>	<b>8</b>
Rhagarweiniad.....	8
Ymyrraeth gynnar.....	8
Darganfod ac asesu'n gynnar.....	9
Cefnogaeth gynnar.....	9
Cynllunio trawsnewid.....	10
<b>MAE ADDYSG GYNHWYSOL O FANTAIS I BAWB.....</b>	<b>11</b>
Rhagarweiniad.....	11
Addysg gynhwysol fel dull o godi cyflawniad i bob dysgwr.....	12
'Mae'r hyn sy'n dda i ddisgyblion gydag AAA yn dda i bob disgybl'.....	13
Monitro cynnydd.....	14
<b>GWEITHWYR PROFFESIYNOL HYNOD GYMWYS.....</b>	<b>16</b>
Rhagarweiniad.....	16
Hyfforddiant cychwynnol ac mewn swydd.....	16
Proffil athrawon cynhwysol a gweithwyr proffesiynol eraill.....	17
Dulliau o recriwtio.....	17
Agweddau cadarnhaol.....	18
Rhwydweithio a chydlynu.....	19
<b>SYSTEMAU CYMORTH A MECANWEITHIAU ARIANNU.....</b>	<b>21</b>
Rhagarweiniad.....	21
Systemau cymorth a mecanweithiau ariannu.....	21
<i>Ymyrraeth mewn Plentynod Cynnar.....</i>	<i>22</i>
<i>Addysg Gynhwysol ac Arfer Ystafell Ddosbarth.....</i>	<i>23</i>
<i>Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol.....</i>	<i>23</i>
<i>Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh).....</i>	<i>24</i>
<b>DATA DIBYNADWY.....</b>	<b>27</b>
Rhagarweiniad.....	27



---

Monitro hawliau dysgwyr.....	28
Monitro effeithiolrwydd systemau ar gyfer addysg gynhwysol.....	30
<b>EDRYCH YMLAEN.....</b>	<b>34</b>
<b>LLYFRYDDIAETH.....</b>	<b>35</b>



## RHAGYMDRODD

Ym mis Tachwedd 2013, trefnodd yr Asiantaeth Ewropeaidd dros Anghenion Arbennig ac Addysg Gynhwysol (yr Asiantaeth) Gynhadledd Ryngwladol a hwylusodd ddadl agored ar addysg gynhwysol. Roedd y ddadl yn cynnwys yr holl randdeiliaid perthnasol: gwneuthurwyr penderfyniadau, ymchwilwyr ac ymarferwyr, yn ogystal â phobl ag anableddau a'u teuluoedd.

Mae siarad am addysg gynhwysol yn awgrymu siarad am wahaniaethau: sut i ddelio â gwahaniaethau mewn ysgolion, ystafelloedd dosbarth ac yn y cwricwlwm yn gyffredinol. Nid oes a wnelo'r ddadl gyfredol ynghylch beth yw cynhwysiant a pham mae ei angen; y cwestiwn allweddol yw sut bydd yn cael ei gyflawni. Y prif faterion yn ystod y gynhadledd oedd sut i wneud cynnydd ar lefel genedlaethol, sut i roi'r mesurau polisi iawn ar waith ar lefel ranbarthol a lleol, sut gall athrawon ymdopi orau gyda gwahaniaethau yn yr ystafell ddosbarth.

Cyflwyno'r ddogfen hon y pum neges berthnasol a gyflwynwyd gan yr Asiantaeth ac a ddadleuwyd mewn grwpiau yn ystod y gynhadledd. Gwahoddwyd y cyfranogwyr i gyfrannu at y pum neges allweddol hyn a'u dadlau:

- *Cyn gynted â phosibl*: effaith gadarnhaol darganfod ac ymyrraeth gynnar yn ogystal â mesurau rhagweithiol.
- *Mae addysg gynhwysol o fantais i bawb*: effaith addysgol a chymdeithasol cadarnhaol addysg gynhwysol.
- *Gweithwyr proffesiynol hynod gymwys*: pwysigrwydd cael gweithwyr proffesiynol hynod gymwys yn gyffredinol, ac athrawon yn arbennig.
- *Systemau cymorth a mecanweithiau ariannu*: yr angen am systemau cymorth cadarn a mecanweithiau ariannu cysylltiedig.
- *Data dibynadwy*: y rôl bwysig y mae data'n ei chwarae, yn ogystal â manteision a chyfyngiadau'r defnydd ohono.

Mae'r negeseuon allweddol hyn yn crynhoi rhan hanfodol o'r gwaith a gynhaliwyd gan yr Asiantaeth yn ystod y degawd diwethaf ac yn mynd i'r afael â materion perthnasol cyn belled ag y mae addysg gynhwysol dan sylw.

Dymuna'r Asiantaeth ddiolch i holl gyfranogwyr y gynhadledd am eu cyfraniad at y ddadl bwysig hon a'u hymrwymiad iddi.

Per Ch Gunnvall

Cor J.W. Meijer

Cadeirydd

Cyfarwyddwr



## CRYNODEB GWEITHREDOL

Bu'r Gynhadledd Ryngwladol yn blatfform defnyddiol er mwyn myfyrio a thrafod addysg gynhwysol o wahanol safbwyntiau a chan gynnwys yr holl randdeiliaid perthnasol.

Roedd materion craidd y gynhadledd yn cynnwys: sut i ymdopi â gwahaniaethau, sut i gefnogi dysgwyr, athrawon a theluoedd; sut i fanteisio ar wahaniaethau mewn addysg; sut i roi'r mesurau iawn ar waith; a sut i fuddsoddi.

Amlygodd yr Asiantaeth bum neges allweddol a drafodwyd yn helaeth, gan arwain at ystyriaeth a chymau pellach.

Awgrymodd y cyfranogwyr nifer o ystyriaethau a chynigion ar gyfer gweithredu oedd yn gysylltiedig â'r negeseuon allweddol:

- *Cyn gynted â phosibl*: mae gan bob plentyn yr hawl i gael y gefnogaeth ofynnol cyn gynted â phosibl a phryd bynnag y mae ei hangen. Awgryma hyn gydlynad a chydweithrediad ymhlith gwasanaethau, a arweinir gan un o'r gwasanaethau dan sylw. Mae angen i'r rhanddeiliaid sydd ynghlwm feithrin cyfathrebu go iawn ymhlith eu hunain, gan allu deall a rhoi gwybodaeth i'w gilydd. Mae'r rhieni'n rhanddeiliaid allweddol.
- *Mae addysg gynhwysol o fantais i bawb*: nod addysg gynhwysol yw darparu addysg o safon i bob dysgwr. Er mwyn cyflawni ysgol gynhwysol, mae angen cefnogaeth y gymuned gyfan: o wneuthurwyr penderfyniadau i ddefnyddwyr (dysgwyr a'u teuluoedd). Mae angen cydweithrediad ar bob lefel ac mae angen gweledigaeth o ganlyniadau tymor hir ar bob rhanddeiliad – y math o bobl ifanc y bydd yr ysgol a'r gymuned yn eu 'cynhyrchu'. Mae angen newidiadau o ran terminoleg, agweddau a gwerthoedd, gan adlewyrchu gwerth ychwanegol amrywiaeth a chyfranogiad cyfartal.
- *Gweithwyr proffesiynol hynod gymwys*: er mwyn i athrawon a gweithwyr addysg proffesiynol eraill fod yn barod am gynhwysiant, mae angen newidiadau ym mhob agwedd ar hyfforddiant – rhaglenni hyfforddiant, arferion dyddiol, recriwtio, materion ariannol ac ati. Rhaid i'r genhedlaeth nesaf o athrawon a gweithwyr addysg proffesiynol fod yn barod i fod yn athrawon/hyfforddwyr ar gyfer pob dysgwr; mae angen iddynt gael eu hyfforddi nid dim ond o ran cymwyseddau ond hefyd o ran gwerthoedd moesegol.
- *Systemau cymorth a'r mecanweithiau ariannu*: nid yw'r dangosyddion gorau ar gyfer ariannu i'w canfod mewn materion ariannol, ond wrth fesur effeithlonrwydd a chyflawniad. Mae'n hanfodol ystyried canlyniadau a'u cysylltu nhw â'r ymdrechion a fuddsoddwyd i'w cyflawni. Golyga hyn monitro





a mesur effeithlonrwydd y systemau er mwyn canolbwyntio'r moddau ariannol tuag at ddulliau llwyddiannus. Dylai strwythurau cymhelliad sicrhau bod rhagor o gymorth ariannol ar gael os caiff dysgwyr eu gosod mewn lleoliadau cynhwysol a bod mwy o bwyslais yn cael ei roi ar ganlyniadau (nid dim ond rhai academaidd).

- *Data dibynadwy*: gofynna casglu data ystyrlon, o ansawdd am ddull systemig sy'n cwmpasu materion y dysgwr, lleoliad, athrawon a chael adnoddau. Mae data sy'n gysylltiedig â lleoliad y dysgwr yn bwynt dechrau defnyddiol ac angenrheidiol, ond mae angen i ddata clir ar ganlyniadau ac effeithiau'r system ychwanegu ato. Mae'r data ar ganlyniadau'r dysgwr – yr effaith ar addysg gynhwysol – yn llawer anos ei gasglu ac yn aml ceir diffyg casglu data gan y gwledydd.

Yn olaf, gellir crynhoi prif ganlyniadau'r trafodaethau fel a ganlyn: mae cynllunio a gweithredu addysg gynhwysol yn broses sy'n ymwneud â'r system addysg gyfan a'r holl ddysgwyr; mae tegwch ac ansawdd yn mynd gyda'i gilydd; rhaid i addysg gynhwysol gael ei hystyried yn gysyniad sy'n datblygu lle mae materion sy'n gysylltiedig ag amrywiaeth a democratiaeth yn fwyfwy pwysig.



## CYN GYNTED Â PHOSIBL

### Rhagarweiniad

Pryderon 'cyn gynted â phosibl', i ddechrau, darparu ymyrraeth yn gynnar ym mywyd plentyn. Mae'n cynnwys hefyd nifer fawr o elfennau perthnasol eraill megis: ymyrryd cyn gynted ag y darganfyddir yr angen; rhoi asesiad cynnar ar waith; darparu'r gefnogaeth angenrheidiol cyn gynted â phosibl; a pharatoi a chynllunio camau trawsnewid o un cam addysgol i'r nesaf ac i gyflogaeth.

Er nad yw amryw brosiectau'r Asiantaeth wedi dadansoddi'r gostyngiad mewn cyfraddau gadael yr ysgol, mae a wnelo lleihau'r cyfraddau hyn â pholisïau ac arferion da o ran darganfod yn gynnar, yn ogystal â chefnogaeth gynnar ac effeithlon.

### Ymyrraeth gynnar

Yn ystod Gwrandawriad y Senedd Ewropeaidd a drefnodd yr Asiantaeth yn 2011, gwnaeth pobl ifanc y pwyntiau canlynol: 'Mae cynhwysiant yn dechrau yn yr ysgol feithrin' (Asiantaeth Ewropeaidd 2012a, tud. 14); Mae amrywiaeth yn gadarnhaol; mae'n bwysig paratoi pobl o'r dechrau, gweithio gyda'r plant i adeiladu gwell cenhedlaeth' (ibid., tud. 29).


Yn fframwaith adroddiad 2010 yr Asiantaeth, *Ymyrraeth mewn Plentyndod Cynnar – Cynnydd a Datblygiadau 2005–2010*, diffinnir ymyrraeth mewn plentyndod cynnar fel a ganlyn:

*cyfuniad o wasanaethau/darpariaeth ar gyfer plant ifanc iawn a'u teuluoedd, a ddarperir yn ôl eu cais nhw ar adeg benodol ym mywyd plentyn, gan gwmpasu unrhyw gam a gynhaliwyd pan fydd angen cymorth arbennig ar blentyn i: Sicrhau a gwella'i datblygiad/ddatblygiad personol; Cryfhau cymwyseddau'r teulu ei hun a Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol y teulu a'r plentyn (Yr Asiantaeth Ewropeaidd, 2010, tud. 7).*

Ymhlith y gwahanol elfennau y nodwyd eu bod yn berthnasol i Ymyrraeth mewn Plentyndod Cynnar, mae argaeledd yn un y mae'n rhaid ei hamlygu:

*nod ar y cyd ymyrraeth mewn plentyndod cynnar yw cyrraedd yr holl blant a theuluoedd y mae angen cymorth arnynt cyn gynted â phosibl. Mae hon yn flaenoriaeth gyffredinol ym mhob gwlad er mwyn gwneud iawn am wahaniaethau rhanbarthol mewn perthynas â'r adnoddau sydd ar gael ac er mwyn sicrhau bod plant a theuluoedd sy'n gwneud cais am gymorth yn gallu manteisio ar wasanaethau o'r un ansawdd (ibid., tud. 7–8).*

Trafodwyd ymyrraeth gynnar hefyd yn fframwaith prosiect *Amrywiaeth Amlddiwylliannol ac Addysg Anghenion Arbennig*:



---

*Cyflwynwyd blaenoriaethau clir gan athrawon a chan weithwyr proffesiynol hefyd o ganolfan gymorth. Roedd y rhain yn cynnwys: blaenoriaeth uchel ar ymyrraeth gynnar; y pwysigrwydd a'r angen i weithio gyda rhieni [ymhlith eraill] (Yr Asiantaeth Ewropeaidd, 2009a, tud. 55).*

## **Darganfod ac asesu'n gynnar**

Mae adroddiad yr Asiantaeth, *Asesu mewn Lleoliadau Cynhwysol: Materion Allweddol ar gyfer Polisi ac Arfer*, yn darparu disgrifiad helaeth o'r agwedd bwysig hon. Mae'n dweud:

*Gall asesiad cychwynnol o ddisgyblion y credir bod ganddynt AAA (anghenion addysgol arbennig) gael dau bwrpas posibl:*

- *Dynodi sy'n gysylltiedig â phenderfyniad swyddogol i 'gydnabod' disgybl sydd ag anghenion addysgol y mae angen adnoddau ychwanegol arno/arni i gefnogi ei ddysgu/ei dysgu;*
- *Hysbysu rhaglenni dysgu, lle mae'r asesiad yn canolbwyntio ar amlygu cryfderau a gwendidau y gallai fod gan y disgybl mewn gwahanol feysydd o'i phrofiad/brofiad addysgol. Defnyddir y fath wybodaeth yn aml mewn ffordd ffurfiannol – efallai fel man cychwyn ar gyfer Cynlluniau Addysg Unigol (CAUau) neu ddulliau gosod targedau eraill – yn hytrach nag asesiad gwaelodlin, un tro (Watkins, 2007, tud. 22).*

'Mae timau amlddisgyblaethol yn cynnal asesiad dynodi cychwynnol gydag athrawon dosbarth y brif ffrwd, rhieni a disgyblion fel partneriaid llawn yn y broses asesu' (ibid., tud. 38).

Amlygwyd pwysigrwydd asesiad cynnar wedi'i ddilyn gan fesurau ymyrraeth gynnar yng nghwmpas adroddiad yr Asiantaeth *Amrywiaeth Amlddiwylliannol ac Addysg Anghenion Arbennig* (2009a), yn ogystal ag yng nghanfyddiadau adroddiad yr Asiantaeth *Mapio Gweithrediad y Polisi ar gyfer Addysg Gynhwysol (MIPIE)* (2011a).

## **Cefnogaeth gynnar**

Cyfeiria mwyafrif adroddiadau'r Asiantaeth at bwysigrwydd a mantais cefnogaeth gynnar.

Mae'r prosiect *Addysg Gynhwysol ac Arfer Ystafell Ddosbarth* yn crybwyll:

*Y meini prawf ddylid eu defnyddio wrth gynnig darpariaeth arbennig ran-amser i ddisgyblion yw y dylent fod: (1) mor gynnar â phosibl; (2) mor hyblyg â phosibl (os nad yw un dull yn gweithio, dewiswch un arall); (3) mor 'ysgafn' â phosibl (heb sgil-ffeithiau negyddol); (4) mor agos â phosibl (felly'n cael ei ffafrio yn nosbarth y brif ffrwd ac o fewn yr ysgol brif ffrwd); a (5) mor fyr â phosibl (Yr Asiantaeth Ewropeaidd, 2003, tud. 16).*



Mae'r adroddiad *Addysg Athrawon ar gyfer Cynhwysiant Ar Draws Ewrop – Heriau a Chyfleoedd* yn datgan:

*mae buddsoddiad mewn system addysg plentyndod cynnar ac addysg fwyfwy cynhwysol yn debygol o gynrychioli defnydd mwy effeithiol o adnoddau na mentrau tymor byr a ddyluniwyd i 'gau'r bylchau' neu gefnogi rhai grwpiau ar yr ymylon (Yr Asiantaeth Ewropeaidd, 2011b, tud. 77).*

### **Cynllunio trawsnewid**

Mae gwahanol brosiectau'r Asiantaeth ar y trawsnewid wedi canolbwyntio ar yr angen am gynllun cynnar i symud o un cam addysgol i'r nesaf, yn ogystal ag o addysg i gyflogaeth (2002a, 2002b, 2006 a 2013).

Mae'r adroddiad *Trawsnewid o Ysgol i Gyflogaeth: Egwyddorion ac Argymhellion Allweddol ar gyfer Gwneuthurwyr Polisi* yn amlygu bod angen i wledydd 'sicrhau bod cynlluniau trawsnewid yn cael eu datblygu'n ddigon cynnar yng ngyrfa ysgol y myfyriwr, nid dim ond ar ddiwedd addysg orfodol' (Yr Asiantaeth Ewropeaidd, 2002a, tud. 5).

Yn fframwaith gwaith yr Asiantaeth ar y pwnc hwn, *Cynlluniau Trawsnewid Unigol*:

*y mddengys bod trawsnewid i gyflogaeth yn rhan o broses hir a chymhleth, sy'n cwmpasu pob cam ym mywyd person, y mae angen ei reoli yn y ffordd fwyaf priodol. 'Bywyd da i bawb' yn ogystal â 'swydd dda i bawb' yw'r nodau pennaf i broses trawsnewid cyffredinol lwyddiannus. Ni ddylai'r mathau o ddarpariaeth neu'r sefydliad o ysgolion neu leoliadau addysg eraill ymyrryd â na rhwystro cyflawniad y fath broses (Yr Asiantaeth Ewropeaidd, 2006, tud. 8).*

I gloi, prif nod ymyrraeth gynnar yw darparu gweithgareddau ystyrlon a chadarnhaol er mwyn hyrwyddo datblygiad cynnar plant, cynnwys y teulu, ansawdd bywyd, cynhwysiant cymdeithasol a chyfoethogiad cymdeithasol. Rhaid cadw mewn cof fod gwasanaethau cymorth yn hanfodol i rai, ond o fantais i bawb hefyd. Mae gan bob plentyn yr hawl i gael cefnogaeth pryd bynnag y mae ei angen. Mae hyn yn gofyn am ddull cydlynol ar draws sectorau a chydweithrediad effeithlon ymhlith yr holl randdeiliaid.

## MAE ADDYSG GYNHWYSOL O FANTAIS I BAWB

### Rhagarweiniad

Ceir cydnabyddiaeth gynyddol ar draws Ewrop, ac yn ehangach ar lefel ryngwladol, bod symud tuag at bolisi ac arfer cynhwysol mewn addysg yn hollbwysig. Mae *Casgliadau'r Cyngor ar ddimensiwn cymdeithasol addysg a hyfforddiant* yn datgan: 'Mae creu'r amodau sy'n ofynnol ar gyfer cynnwys disgyblion ag anghenion arbennig yn llwyddiannus yn lleoliadau'r brif ffrwd o fantais i bob dysgwr' (Cyngor yr Undeb Ewropeidd, 2010, tud. 5).

Tanlinella Bapur Gwyrdd Comisiwn y Cymunedau Ewropeidd ar Ymfudo a Symudedd:

*Rhaid i ysgolion chwarae rôl arweiniol wrth greu cymdeithas gynhwysol, gan mai nhw sy'n cynrychioli'r prif gyfle i bobl ifanc o gymunedau ymfudol ac sy'n cynnal i ddod i adnabod a pharchu ei gilydd ... gallai amrywiaeth ieithyddol a diwylliannol esgor ar adnodd amhrisiadwy i ysgolion* (Comisiwn y Cymunedau Ewropeidd, 2008, tud. 1).

Mae Sefydliad Addysg, Gwyddoniaeth a Diwylliant y Cenhedloedd Unedig (UNESCO) (2009) yn datgan yn glir mai cwestiwn o degwch yw addysg gynhwysol ac felly mae'n fater o ansawdd sy'n effeithio ar bob dysgwr. Amlygir tri chynnig mewn perthynas ag addysg gynhwysol: bod cynhwysiant ac ansawdd yn ddwyochrog; bod mynediad ac ansawdd yn gysylltiedig ac yn atgyfnerthu ei gilydd; a bod ansawdd a thegwch yn ganolog i sicrhau addysg gynhwysol.

Mae nifer o brosiectau'r Asiantaeth wedi canolbwyntio ar y mater hwn hefyd. Mae adroddiad ar gynhadledd *Codi Cyflawniad i Bob Dysgwr* yr Asiantaeth (Yr Asiantaeth Ewropeidd, 2012c) yn amlygu bod materion yn ymwneud â diffinio cynhwysiant wedi dod yn fwyfwy pwysig, ond ymddengys bod cytundeb cynyddol ar yr angen am ddull seiliedig ar hawliau i ddatblygu mwy o degwch a chyfiawnder cymdeithasol ac i gefnogi datblygiad cymdeithas anwahaniaethol. Felly, mae'r ddadl am gynhwysiant wedi ehangu o un a ddefnyddiwyd i ganolbwyntio ar symud plant y disgrifiwyd bod ganddynt anghenion addysgol arbennig i ysgolion y brif ffrwd, i un sy'n ceisio darparu addysg ansawdd uchel, a'r buddiannau o ganlyniad i hynny, i bob dysgwr.

Wrth i fwy o wledydd symud i ddiffiniad ehangach o addysg gynhwysol, cydnabyddir bod amrywiaeth yn 'naturiol' mewn unrhyw grŵp o ddysgwyr a gellir ystyried addysg gynhwysol fel ffordd o godi cyflawniad trwy bresenoldeb (mynediad i addysg), cyfranogiad (ansawdd y profiad dysgu) a chyflawniad (prosesau a chanlyniadau dysgu) **pob** dysgwr.

Mae gwaith yr asiantaeth ar *Egwyddorion Allweddol ar gyfer Hyrwyddo Ansawdd mewn Addysg Gynhwysol* (Yr Asiantaeth Ewropeidd, 2009b) yn atgyfnerthu



pwysigrwydd dulliau dysgu sy'n canolbwyntio ar ddysgwyr/personol, asesiadau athrawon sy'n cefnogi dysgu a gwaith cydweithredol gyda rhieni a theuluoedd – fodd bynnag, mae'r rhain yn allweddol i wella ansawdd yr addysg i bob dysgwr.

### **Addysg gynhwysol fel dull o godi cyflawniad i bob dysgwr**

Noda Wilkinson a Pickett fod 'mwy o gydraddoldeb, yn ogystal â gwella lles y boblogaeth gyfan hefyd yn allweddol i safonau cyflawniad cenedlaethol (2010, tud. 29). Pwysleisiant, os:

*mae gwlad eisiau lefelau cyflawniad addysgol uwch na'r cyfartaledd ymhlith ei phlant ysgol, rhaid iddi fynd i'r afael â'r anghydraddoldeb sydd wrth wraidd sy'n creu graddiant cymdeithasol llymach mewn cyflawniad addysgol (ibid., tud. 30).*

O herio'r syniad y gallai cynnwys pob dysgwr fod yn andwyol rywsut i gyflawniad uchel, mae'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD, 2011) yn dangos nad oes rhaid i wella'r myfyrwyr isaf o ran eu perfformiad fod ar draul y perfformwyr uwch. Yn ogystal, mae canfyddiadau adroddiad UNESCO, *Gwahaniaethau Dysgu* (Willms, 2006) yn darparu tystiolaeth fod perfformiad cryf a thegwch gan ysgol yn mynd law yn llaw ac mai'r gwledydd gyda'r lefelau perfformiad uchaf yw'r rhai sy'n tueddu i godi cyflawniad pob dysgwr yn llwyddiannus (Yr Asiantaeth Ewropeaidd, 2012d).

Yn ôl adroddiad *Codi Cyflawniad i Bob Dysgwr* yr Asiantaeth,

*Canfu Farrell a'i gydweithwyr (2007) ... gorff bach o ymchwil sy'n awgrymu nad yw rhoi dysgwyr gydag AAA mewn ysgolion prif ffrwd yn cael unrhyw oblygiadau andwyol mawr ar gyflawniad academaidd, ymddygiad ac agweddau'r holl blant. Canfu adolygiad systematig o'r deunydd darllen a gomisiynwyd gan y Fenter Tystiolaeth ar gyfer Polisi ac Arfer (Kalambouka et al., 2005) hefyd, yn gyffredinol, nid oes effeithiau andwyol ar ddysgwyr heb AAA pan fydd dysgwyr gydag anghenion arbennig yn cael eu cynnwys yn ysgolion y brif ffrwd (Yr Asiantaeth Ewropeaidd, 2012d, tud. 8).*

Amlinella sawl astudiaeth fanteision cynhwysiant i ddysgwyr heb anabledau. Mae'r manteision hyn yn cynnwys:

*cyfranogiad cynyddol a derbyn gwahaniaethau unigol ac amrywiaeth, parch tuag at bawb, paratoi ar gyfer bywyd fel oedolyn mewn cymdeithas gynhwysol a chyfleoedd i feistrolï gweithgareddau trwy ymarfer ac addysgu pobl eraill. Dogfennir yr effeithiau hynny mewn ymchwil ddiweddar hefyd, er enghraifft Bennett a Gallagher (2012) (Yr Asiantaeth Ewropeaidd, 2012d, tud. 8).*



*Nodir effaith gadarnhaol lleoliadau cynhwysol ar ddysgwyr gydag anabledau trwy ymchwil megis MacArthur et al. (2005) a de Graaf et al. (2011). Mae hyn yn cynnwys gwell perthnasoedd a rhwydweithiau cymdeithasol, modelau rôl o'r un oed, cynnydd mewn cyflawniad, disgwyladau uwch, cydweithrediad cynyddol ymhlith staff yr ysgol ac integreiddio teuluoedd i mewn i'r gymuned yn well (Yr Asiantaeth Ewropeaidd, 2012d, tud. 8).*

Gallai manteision pellach gynnwys mynediad i gyfleoedd cwricwlwm ehangach a chydabod ac achredu cyflawniad.

*Dylid rhoi ystyriaeth i wella'r drefn 'lleoedd' i ddysgu a darparu rhagor o gyfleoedd i ddysgwyr ddarganfod doniau mewn ystod o feysydd y tu hwnt i ddysgu academaidd (ibid., tud. 25).*

Canolbwyntiodd ymchwil gan Chapman et al. (2011) yn benodol ar:

*arweinyddiaeth sy'n hyrwyddo cyflawniad ar gyfer dysgwyr gydag AAA/anabled ac awgrymwyd y gall presenoldeb poblogaeth amrywiol o fyfyrwyr, ysgogi trefniadau cydweithredol ac annog ffyrdd arloesol o addysgu grwpiau anodd eu cyrraedd dan yr amodau trefniadol iawn (Yr Asiantaeth Ewropeaidd, 2012d, tud. 21).*

### **'Mae'r hyn sy'n dda i ddisgyblion gydag AAA yn dda i bob disgybl'**

Ers i'r datganiad hwn gael ei wneud yng nghyhoeddiad yr Asiantaeth *Addysg Gynhwysol ac Arfer Ystafell Ddosbarth* (Yr Asiantaeth Ewropeaidd, 2003, tud. 33) mae wedi cael ei ailadrodd yn aml yng ngwaith yr Asiantaeth.

Er enghraifft, amlygodd yr un astudiaeth fod:

*mae tiwtora cymheiriaid neu ddysgu cydweithredol yn effeithiol ym meysydd gwybyddol ac affeithiol (cymdeithasol-emosiynol) dysgu a datblygu'r disgyblion. Mae disgyblion sy'n helpu ei gilydd, yn enwedig mewn system o grwpio disgyblion yn hyblyg a chyda ystyriaeth dda, yn elwa ar ddysgu gyda'i gilydd (ibid., tud. 23).*

Yng ngwaith yr Asiantaeth ar arfer cynhwysol mewn ysgolion uwchradd yn 2005, pwysleisiwyd bod:

*Pob myfyriwr – gan gynnwys myfyrwyr gydag AAA – yn dangos gwelliannau yn eu dysgu gyda gwaith monitro, asesu, cynllunio a gwerthuso systematig o'u gwaith (Yr Asiantaeth Ewropeaidd, 2005, tud. 8)*

a bod:

*Pob myfyriwr yn elwa ar ddysgu cydweithredol: mae'r myfyriwr sy'n esbonio i'r myfyriwr arall yn cofio gwybodaeth yn well ac yn hwy ac eir i'r afael ag*

*anghenion y myfyriwr sy'n dysgu'n well gan gyd-fyfyriwr sydd â lefel ddealltwriaeth sydd ond ychydig yn uwch na'i lefel ei hun (ibid., tud. 18–19).*

Datgan adroddiad *Codi Cyflawniad i Bob Dysgwr*:

*dylai system sy'n galluogi dysgwyr i symud ymlaen tuag at nodau cyffredin, ond trwy wahanol lwybrau, gan ddefnyddio gwahanol arddulliau dysgu ac asesu, fod yn fwy cynhwysol a chodi cyflawniad pob dysgwr (Yr Asiantaeth Ewropeaidd, 2012d, tud. 25).*

Mae gwaith yr Asiantaeth ar *Asesu mewn Lleoliadau Cynhwysol* yn nodi hefyd yr angen i gynnwys pob dysgwr a rhieni/teuluoedd yn y broses ddysgu ac asesu (Watkins, 2007).

Mae'r un adroddiad yn nodi bod angen ystyriaeth ofalus ar y broses wahaniaethu. Er y gallai fod yn gysylltiedig hefyd ag unigoleiddio a phersonoli a'i fod yn cael ei ystyried yn ffordd o fodloni anghenion unigolion neu grwpiau mwy penodol, mae'n aml yn parhau i ganolbwyntio ar athrawon yn hytrach na'u harwain gan ddysgwyr. Mae angen i bersonoli ddechrau gydag anghenion a diddordebau pob dysgwr.

Ym mhrosiect *i-access* mwy diweddar yr Asiantaeth, nodir bod buddiannau technoleg gynorthwyol neu 'dechnoleg alluogi' yn aml yn profi'n ddefnyddiol i amrywiaeth fawr o ddefnyddwyr. 'Mae hygyrchedd o fantais i ddefnyddwyr gydag anabledau ac/neu anghenion addysgol arbennig ac yn aml, gall fod o fantais i bob defnyddiwr' (Yr Asiantaeth Ewropeaidd, 2012e, tud. 22).

Mae safbwyntiau'r bobl ifanc gydag anabledau a heb anabledau a fynegwyd yn y cyhoeddiad *Barnau Ifanc ar Addysg Gynhwysol* yn darparu crynodeb clir o fanteision addysg gynhwysol i bob dysgwr. Fel y dywedodd un dysgwr: 'Mae addysg gynhwysol i bob plentyn. Dylai ysgolion normal fod gerllaw eu cartrefi. Mae'r profiad hwn yn hyrwyddo pobl o'r gymdogaeth i gyfarfod' (Yr Asiantaeth Ewropeaidd, 2012a, tud. 11). Ychwanegodd eraill: 'Gall myfyrwyr gydag anghenion arbennig a hebddynt ddysgu wrth ei gilydd a chyfnewid eu gwybodaeth', 'Mae'n dda i ni – yn dda iddyn nhw. Mae'n bwysig cydnabod y manteision i bawb yn y dosbarth' ac 'Mae addysg gynhwysol yn helpu plant y brif ffrwd i fod yn fwy goddefgar, gyda meddyliau mwy agored' (ibid., tud. 22).

## **Monitro cynnydd**

Cafodd addysg gynhwysol ei ehangu i ystyried addysg o ansawdd i bob dysgwr, mae angen dod o hyd i ffyrdd newydd o fonitro cynnydd. Awgrymir yng ngwaith yr Asiantaeth ar ddangosyddion ac adroddiad *Mapio Gweithrediad y Polisi ar gyfer Addysg Gynhwysol* (2011a), ar lefel ysgol, gallai casglu data ystyried y ffactorau sy'n effeithio ar ansawdd strategaethau derbyn yr ysgolion, megis: rheolau a pholisïau derbyn anwahaniaethol; polisïau a strategaethau a ddatblygwyd i gefnogi dysgwyr





wrth ddatgelu eu hanghenion; bodolaeth datganiad polisi clir yn erbyn bwlio; gweithredu codau ymarfer presennol ar addysg gynhwysol; sesiynau hyfforddi staff ar faterion derbyn ac ar greu hinsawdd ysgol groesawgar; gweithio'n barchus ac ar y cyd gyda dysgwyr a theuluoedd; strategaethau i helpu dysgwyr a theuluoedd i gymryd rhan yn weithgar yng nghymuned ac ystafell ddosbarth yr ysgol; ac argaeledd gwybodaeth, sesiynau cynghori a strategaethau cyngor a'u heffaith ar ddysgwyr.

I gloi, mae'r ddadl ehangach ar gynhwysiant bellach yn ceisio darparu addysg ansawdd uchel a buddiannau, i bob dysgwr. Gall perfformiad cryf gan ysgolion a thegwch fynd law yn llaw.

Mae'r system addysg yn gymhleth ac yn rhanedig ac, ar hyn o bryd, ceir diffyg meddwl cydlynol ynnddi ynghylch addysg gynhwysol. At ei gilydd, ychydig gefnogaeth sydd i benaethiaid ac arweinwyr a allai fod yn ymdrechu i gyflwyno newid mewn sefyllfaoedd ynysig. Mae amrywiaeth yn cynyddu ar draws y system, ond mae traddodiadau'r gorffennol yn cyfyngu ar gamau gweithredu. Rhaid i allu'r ysgolion gael ei ddatblygu trwy ymwybyddiaeth o gyd-destun, gohebiaeth (rhwng deddfwriaeth a pholisi/ymarfer), eglurder cysyniadol a chontinwmm o gefnogaeth i bob rhanddeiliad sy'n annog ysgolion i fod yn rhagweithiol yn hytrach nag ymatebol. Bydd dod i adnabod pob dysgwr ac ymyrryd yn gynnar yn datblygu cefnogaeth o ansawdd i'r holl ddysgwyr a ystyrir yn rhan o addysg reolaidd.



## GWEITHWYR PROFFESIYNOL HYNOD GYMWYS

### Rhagarweiniad

Mae a wnelo 'gweithwyr proffesiynol hynod gymwys' â materion hyfforddiant cychwynnol ac mewn swydd, proffil, gwerthoedd a chymhwysedd athrawon, dulliau effeithiol o recriwtio ac agweddau, yn ogystal â rhwydweithio a chydlynu pob gweithiwr proffesiynol.

Nododd pobl ifanc a fynychodd Gwrandawriad y Senedd Ewropeaidd, a drefnwyd gan yr Asiantaeth yn 2011:

*Y man cychwyn ar gyfer addysg gynhwysol yw ymwybyddiaeth ac addysg yr athrawon ... Rhaid i athrawon fod yn ymwybodol o'r hyn y mae pawb ei angen a rhoi cyfleoedd i gyrraedd nodau'n llwyddiannus. Mae gan bob un ohonom ein doniau – gyda'n gilydd rydym yn gwneud gwell cymuned waith (Yr Asiantaeth Ewropeaidd, 2012a, tud. 12).*

### Hyfforddiant cychwynnol ac mewn swydd

Ystyrir hyfforddiant cychwynnol ac mewn swydd briodol i athrawon a gweithwyr proffesiynol eraill yn ffactor allweddol ar gyfer arferion cynhwysol llwyddiannus. Mae adroddiad yr Asiantaeth *Egwyddorion Allweddol ar gyfer Hyrwyddo Ansawdd mewn Addysg Gynhwysol – Argymhellion ar gyfer Arfer* yn amlygu:

*Dylai pob athro/athrawes ddatblygu'r sgiliau i fodloni anghenion amrywiol pob dysgwyr. Yn eu haddysg gychwynnol a pharhaus, dylid darparu athrawon gyda'r sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth a fydd yn rhoi'r hyder iddynt ddelio'n effeithiol gydag ystod o anghenion dysgwyr (Yr Asiantaeth Ewropeaidd, 2011c, tud. 15).*

Cyfeiria adroddiad yr Asiantaeth *Addysg Athrawon ar gyfer Cynhwysiant ar draws Ewrop – Heriau a Chyfleoedd* at strwythur addysg gychwynnol i athrawon. Mae'n datgan:

*Roedd un o'r prif flaenoriaethau ar gyfer addysg athrawon ... yn cynnwys yr angen i adolygu'r strwythur i wella addysg athrawon ar gyfer cynhwysiant ac i uno athrawon addysg y brif ffrwd ac addysg arbennig. Cydnabyddir yn fwyfwy rôl newidiol athrawon, gan bwysleisio'r angen am newidiadau sylweddol yn y ffordd y paratoir athrawon ar gyfer eu rolau a'u cyfrifoldebau proffesiynol (Yr Asiantaeth Ewropeaidd, 2011b, tud. 18).*

At hynny, mae'n dynodi bod:

*Addysgwyr sy'n athrawon yn chwaraewyr allweddol wrth sicrhau gweithlu addysgu o'r safon uchaf; ac eto nid oes gan nifer fawr o wledydd Ewropeaidd*

*bolisi amlwg ar y cymwyseddau y dylent feddu arnynt na sut y dylid eu dewis neu eu hyfforddi (ibid., tud. 63).*

## **Proffil athrawon cynhwysol a gweithwyr proffesiynol eraill**

O fewn fframwaith prosiect *Addysg Athrawon ar gyfer Cynhwysiant* yr Asiantaeth, datblygwyd *Proffil Athrawon Cynhwysol* (Yr Asiantaeth Ewropeaidd, 2012b) fel arweiniad ar gyfer dylunio a gweithredu rhaglenni addysg gychwynnol i athrawon i bob athro/athrawes. Dynoda fframwaith o werthoedd craidd a meysydd cymhwysedd sy'n berthnasol i unrhyw raglen addysg gychwynnol i athrawon er mwyn paratoi'r holl athrawon i weithio mewn addysg gynhwysol ac ystyried pob math o amrywiaeth.

Mae'r fframwaith gwerthoedd craidd a meysydd cymhwysedd yn cynnwys:

***Rhoi Gwerth i Amrywiaeth y Dysgwyr*** – ystyrir gwahaniaeth mewn dysgwyr fel adnodd ac fel caffaeliad i addysg. Mae'r meysydd gallu yn y gwerth craidd hwn yn ymwneud â: Chysyniadau addysg gynhwysol; Barn yr athro/athrawes o wahaniaeth y dysgwyr.

***Cefnogi Pob Dysgwr*** – mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o gyflawniadau'r holl ddysgwyr. Mae'r meysydd gallu yn y gwerth craidd hwn yn ymwneud â: Hyrwyddo dysgu academaidd, ymarferol, cymdeithasol ac emosïynol yr holl ddysgwyr; Dulliau addysgu effeithiol mewn dosbarthiadau heterogenaidd.


***Gweithio Gyda Phobl Eraill*** – mae cydweithredu a gwaith tîm yn ddulliau hanfodol i'r holl athrawon. Mae'r meysydd gallu yn y gwerth craidd hwn yn ymwneud â: Gweithio gyda rhieni a theuluoedd; Gweithio gydag ystod o weithwyr addysgol proffesiynol.

***Datblygiad Proffesiynol Personol*** – mae addysgu'n weithgaredd dysgu a chymer athrawon gyfrifoldeb am eu dysgu gydol oes. Mae'r meysydd gallu yn y gwerth craidd hwn yn ymwneud ag: Athrawon fel ymarferwyr myfyrgar; Addysg gychwynnol i athrawon fel sail ar gyfer dysgu a datblygiad proffesiynol parhaus (ibid., tud. 7).

## **Dulliau o recriwtio**

Nodir dulliau effeithiol o recriwtio a chyfraddau cadw cynyddol athrawon a gweithwyr proffesiynol eraill yn ffactorau allweddol mewn nifer o brosiectau'r Asiantaeth. Amlyga adroddiad yr Asiantaeth *Addysg Athrawon ar gyfer Cynhwysiant ar Draws Ewrop – Heriau a Chyfleoedd*:

*Dylid archwilio dulliau effeithiol o wella recriwtio darpar athrawon a chynyddu cyfraddau cadw ynghyd â ffyrdd o gynyddu nifer yr athrawon o gefndiroedd*



---

*amrywiol, gan gynnwys y rhai gydag anableddau (Yr Asiantaeth Ewropeaidd, 2011b, tud. 71).*

Mae adroddiad y prosiect yn nodi:

*Mae gan leiafrif o wledydd brofion i reoleiddio mynediad i'r maes addysgu ond amlyga ymchwil ddiweddar gan Menter a'i chydweithwyr (2010) dystiolaeth sy'n dangos bod nifer fawr o ddimensiynau addysgu effeithiol nad ydynt yn cael eu darogan yn ddibynadwy gan brofion gallu academaidd. Mae'n sicr y cefnogir y casgliad hwn gan yr adolygiad o lenyddiaeth y prosiect ac adroddiadau'r gwledydd, gan fod y ddau'n amlygu pwysigrwydd agweddau, gwerthoedd a chredoau, yn ogystal â gwybodaeth a sgiliau wrth ddatblygu arfer cynhwysol. Mae'n anodd cadarnhau'r rhain, ynghyd â'r gosodiadau sy'n cefnogi datblygiad y cymwyseddau angenrheidiol hyd yn oed trwy sefyllfa gyfweld ac mae angen ymchwil bellach i ddulliau dewis ymgeiswyr i fod yn athrawon (Yr Asiantaeth Ewropeaidd, 2011b, tud. 19–20).*

### **Agweddau cadarnhaol**

Amlygir agweddau cadarnhaol yr athrawon a gweithwyr proffesiynol eraill fel elfen allweddol ar gyfer addysg gynhwysol yn y rhan fwyaf o brosiectau'r Asiantaeth. Mae adroddiad yr Asiantaeth *Addysg Gynhwysol ac Arfer Ystafell Ddosbarth* yn nodi:

*Wrth gwrs, dibynna gynhwysiant gan mwyaf ar agweddau'r athrawon tuag at ddisgyblion gydag anghenion arbennig, ar eu barn ar wahaniaethau mewn ystafelloedd dosbarth a'u parodrwydd i ddelio'n effeithiol â'r gwahaniaethau hynny... At ei gilydd, cynigiwyd bod agwedd yr athrawon yn ffactor pendant wrth wneud ysgolion yn fwy cynhwysol (Yr Asiantaeth Ewropeaidd, 2003, tud. 12).*

Yn yr un modd, mae adroddiad yr Asiantaeth *Egwyddorion Allweddol ar gyfer Hyrwyddo Ansawdd mewn Addysg Gynhwysol – Argymhellion ar gyfer Arfer* yn amlygu pwysigrwydd agweddau cadarnhaol. Mae'n datgan:

*Dylai fod gan bob athro/athrawes agweddau cadarnhaol tuag at bob dysgwr a'r ewyllys i weithio ar y cyd gyda chydweithwyr. Dylai pob athro/athrawes ystyried amrywiaeth fel cryfder ac fel ysgogiad ar gyfer eu dysgu pellach eu hunain (Yr Asiantaeth Ewropeaidd, 2011c, tud. 14).*

Dynoda cyhoeddiad yr Asiantaeth *Asesu mewn Lleoliadau Cynhwysol: Materion Allweddol ar gyfer Polisi ac Arfer*:

*Mae'r agweddau sydd gan athro/athrawes dosbarth prif ffrwd mewn perthynas â chynhwysiant, asesu ac felly asesiad cynhwysol yn hollbwysig. Gellir meithrin agweddau cadarnhaol trwy ddarparu hyfforddiant, cefnogaeth, adnoddau a phrofiadau ymarferol priodol cynhwysiant llwyddiannus. Mae angen i athrawon*



*gael mynediad i'r fath brofiadau i'w helpu i ddatblygu'r agweddau cadarnhaol angenrheidiol (Watkins, 2007, tud. 51).*

## **Rhwydweithio a chydlynu**

Cyfeiria holl adroddiadau'r Asiantaeth at rôl effeithiol cydweithredu a chydlynu gweithwyr proffesiynol a rhwydweithio gyda gwasanaethau cymunedol rhyngddisgyblaethol. Un enghraifft werth ei nodi yw adroddiad yr Asiantaeth *Addysg Athrawon ar gyfer Cynhwysiant: Proffil Athrawon Cynhwysol (TE4I)*, sy'n amlygu:

*Dylid ystyried gweithrediad addysg gynhwysol fel tasg ar y cyd, gyda gwahanol randdeiliaid yn meddu ar rolau a chyfrifoldebau i'w diwallu. Mae'r gefnogaeth y mae ar athrawon dosbarth eu hangen i ddiwallu eu rolau'n cynnwys mynediad i strwythurau sy'n hwyluso cyfathrebu a gweithio fel tîm gydag ystod o wahanol weithwyr proffesiynol (gan gynnwys y rhai sy'n gweithio mewn sefydliadau addysg uwch) yn ogystal â chyfleoedd am ddatblygiad proffesiynol parhaus (Yr Asiantaeth Ewropeaidd, 2012b, tud. 23).*

Yng nghyhoeddiad yr Asiantaeth *Addysg Gynhwysol ac Arfer Ystafell Ddosbarth mewn Addysg Uwchradd*, amlygir materion addysgu cydweithredol a datrys problemau cydweithredol fel ffactorau allweddol ar gyfer arfer cynhwysol effeithlon. Mae'r prosiect yn datgan: 'Mae angen i athrawon gael cefnogaeth wrth, a gallu cydweithredu gydag ystod o gydweithwyr yn yr ysgol yn ogystal â gweithwyr proffesiynol o'r tu allan i'r ysgol' (Yr Asiantaeth Ewropeaidd, 2005, tud. 6).

I gloi:

Mae addysg gynhwysol yn cynnwys newid systemig sy'n gofyn am drawsnewid yn y ffordd y mae athrawon a gweithwyr addysg proffesiynol eraill yn cael eu haddysgu, nid dim ond o ran cymwyseddau ond o ran gwerthoedd moesegol hefyd.

Gellir crynhoi'r prif agweddau sy'n gysylltiedig â gweithwyr proffesiynol hynod gymwys yn ôl nifer y dangosyddion ym maes deddfwriaeth ar gyfer addysg gynhwysol a ddatblygwyd ac a gyflwynwyd ym mhrosiect yr Asiantaeth, *Datblygu set o ddangosyddion – ar gyfer addysg gynhwysol yn Ewrop*:

*Mae hyfforddiant cychwynnol i athrawon a rhaglenni hyfforddiant mewn swydd i athrawon yn cynnwys addysg arbennig neu faterion cysylltiedig â chynhwysiant.*

*Cefnogir athrawon a staff eraill i ddatblygu eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u hagweddau mewn perthynas â chynhwysiant er mwyn iddynt fod yn barod i fodloni anghenion pob disgybl/myfyriwr mewn addysgu prif ffrwd.*

*Mae cyrsiau a chyfleoedd am ddatblygiad proffesiynol i wella sgiliau pedagogiaid athrawon ar gael.*



---

*Mae athrawon yn cynllunio, yn addysgu ac yn adolygu ar y cyd.*

*Mae adnoddau ymroddedig wedi'u rhoi naill ochr ar gyfer datblygiad proffesiynol priodol sy'n gysylltiedig â bodloni anghenion arbennig mewn addysg gynhwysol (Kyriazopoulou a Weber, 2009, tud. 28).*

## SYSTEMAU CYMORTH A MECANWEITHIAU ARIANNU

### Rhagarweiniad

Ym mis Tachwedd 2011, cynhaliodd yr Asiantaeth Ewropeaidd Wrandawriad yn y Senedd Ewropeaidd ym Mrwsel. Cymerodd 88 o bobl ifanc ran, rhai gydag a heb anghenion addysgol arbennig ac/neu anabledau, o addysg uwchradd a galwedigaethol, er mwyn trafod yr hyn y mae addysg gynhwysol yn ei golygu iddynt hwy. Mae rhai o'r canlyniadau'n cysylltu'n uniongyrchol â materion darpariaeth ac ariannu: 'Mae angen adnoddau ychwanegol fel amser ac arian ar addysg gynhwysol ond rhaid i bob disgybl gael yr addysg maen nhw ei heisiau' (Yr Asiantaeth Ewropeaidd, 2012a, tud. 13).

*Mae mynediad ffisegol i adeiladau'n bwysig (liffitiau, drysau awtomatig, switshis o fewn cyrraedd ac ati) ... Yn achos profion, mae angen amser ychwanegol ... Mae angen systemau cymorth mewnol i gefnogi myfyrwyr gydag anabledau (ibid., tud. 27).*

*Mae cefnogaeth i bobly tu allan i staff yr ysgol a all weithredu fel cyfryngwyr i fyfyrwyr ag anghenion arbennig yn dda. Roedd yno athrawon nad oeddent eisiau cydweithredu wrth wneud i addysg gynhwysol weithio i mi ac i eraill; dylai athrawon dderbyn pawb yn eu dosbarthiadau (ibid., tud. 20).*

*Mae toriadau'r llywodraeth eisoes yn effeithio ar rywfaint o'r gefnogaeth – mae pobl fel cyfryngwyr yn colli eu swyddi. Mae arian yn mynd i mewn i ysgolion, ond mae mor gamweithredol oherwydd golyga bod rhaid i athrawon 'arferol' wneud y gefnogaeth ac nid oes ganddynt syniad (ibid., tud. 27).*

*Yn aml iawn, honnir bod addysg gynhwysol yn ddrud, ond wrth geisio arbed, rydym yn talu mwy i ddelio â phroblemau yn y pen draw ta beth ... Hyd yn oed os nad oes gan wlad lawer o adnoddau, mae angen gwneud addysg gynhwysol yn y ffordd orau. Buddsoddiad yw addysg gynhwysol, rhaid i ni fuddsoddi mewn pobl; y boblyw'r unig adnodd (ibid., tud. 24).*

### Systemau cymorth a mecanweithiau ariannu

Mae systemau cymorth a mecanweithiau ariannu'n cwmpasu pob lefel o ddysgu ac felly'n cyffwrdd ag amryw faterion. At hynny, byddai cyfyngu'r mater i'r maes addysgol ar ei ben ei hun yn annigonol:

*Ni fydd plant a phobl ifanc yn llwyddiannus yn eu dysgu os na fodlonir eu hanghenion ieched, cymdeithasol ac emosiynol sylfaenol. Gallai hyn ofyn am gefnogaeth i deuluoedd a chymunedau a bydd angen gwasanaethau fel ieched a gwasanaethau cymdeithasol i gydweithredu a sicrhau dull holistaidd (Yr Asiantaeth Ewropeaidd, 2011c, tud. 17–18).*



Ceir ymwybyddiaeth gyffredinol fod creu polisiau seiliedig ar dystiolaeth yn hollbwysig i ddatblygiad tymor hir systemau addysg gynhwysol. Cydnabuwyd hyn yng ngwaith yr Asiantaeth mor bell yn ôl â 1999 yn adroddiad *Ariannu Addysg Anghenion Arbennig*, a ddadleuodd:

*gallai gweithdrefnau gwerthuso a monitro mewn gwledydd gael eu gwella hefyd o fewn fframwaith addysg arbennig. Yn y lle cyntaf, mae'n bwysig sicrhau ac ysgogi gwariant effeithlon ac effeithiol o arian cyhoeddus. Yn ail, ymddengys bod angen dangos y systemau addysg yn glir i'r cleientiaid (disgyblion ag anghenion arbennig a'u rhieni) bod addysg yn lleoliad y brif ffrwd (gan gynnwys yr holl gyfleusterau a chefnogaeth ychwanegol) o safon ddigon uchel (Yr Asiantaeth Ewropeidd, 1999, tud. 158).*

Aed i'r afael ag ariannu a darpariaeth yn amryw brosiectau eraill yr Asiantaeth. Felly, rhydd y datganiadau a'r canlyniadau canlynol oleuni ar y ddau fater hyn o wahanol safbwyntiau a godwyd gan wahanol brosiectau a gynhelir gan yr Asiantaeth.

### ***Ymyrraeth mewn Plentynod Cynnar***

'Y duedd gyffredin yn Ewrop yw lleoli a chyflwyno gwasanaethau Ymyrraeth mewn Plentynod Cynnar mor agos â phosibl at y plentyn a'r teulu' (Yr Asiantaeth Ewropeidd, 2010, tud. 17), e.e. yn y gymuned.

*Dylai darpariaeth a gwasanaethau ymyrraeth mewn plentynod cynnar gyrraedd yr holl deuluoedd a phlant ifanc sydd angen cymorth er gwaetha'u cefndiroedd cymdeithasol-economaidd gwahanol ... Awgryma hyn y dylai arian cyhoeddus dalu am yr holl gostau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau Ymyrraeth mewn Plentynod Cynnar a ddarperir trwy wasanaethau cyhoeddus, cyrff anllywodraethol, sefydliadau dielw ac ati, sy'n diwallu'r safonau ansawdd cenedlaethol angenrheidiol (ibid., tud. 21–22).*

*Fel rheol, daw arian cyhoeddus ar gyfer gwasanaethau ymyrraeth mewn plentynod cynnar gan y llywodraeth ganolog ac/neu'r cronfeydd ffederal/rhanbarthol ac/neu gronfeydd lleol. Yn y rhan fwyaf o achosion, cyfuniad o'r tair lefel weinyddu, cynlluniau yswiriant iechyd a chodi arian gan sefydliadau dielw a grybwyllwyd uchod yw cyllid ymyrraeth mewn plentynod cynnar (ibid., tud. 22).*

Mae'r argymhellion i wella cydlynid gwasanaethau a darpariaeth Ymyrraeth mewn Plentynod Cynnar yn cynnwys, ymhlith pethau eraill:

*Yn aml, maes gwaith rhwng asiantaethau yw ymyrraeth mewn plentynod cynnar, ond ym mhob achos, yn faes gwaith rhyngddisgyblaethol. Mae angen i wneuthurwyr polisi gydnabod hyn trwy sicrhau y datblygir polisi ac arweiniad ar y cyd gan adrannau iechyd, addysg a'r gwasanaethau cymdeithasol a bod gan*





*unrhyw arweiniad cyhoeddedig ar gyfer gwasanaethau rhanbarthol a lleol logos mwy nag un adran. Dim ond fel hyn y bydd gweithio integredig yn hidlo i lawr i lefel ranbarthol a lleol (ibid., tud. 42).*

### **Addysg Gynhwysol ac Arfer Ystafell Ddosbarth**

*Dibynna fodolaeth gwahanol fodelau o ddelio â gwahaniaethau mewn ystafelloedd dosbarth nid yn unig ar ffactorau athrawon ond hefyd ar y ffordd y mae ysgolion yn trefnu eu darpariaeth addysgol ac ar ffactorau allanol eraill.*

Cynhwyswyd y datganiad hwn yn adroddiad yr Asiantaeth ar Addysg Gynhwysol ac Arfer Ystafell Ddosbarth (Yr Asiantaeth Ewropeaidd, 2003, tud. 8).

*Mae'n amlwg bod gofalu am ddisgyblion gydag AAA nid yn unig yn gwestiwn ar yr adnoddau angenrheidiol ar lefel ystafell ddosbarth. Dylid cydnabod bod strwythur y sefydliad ar lefel ysgol hefyd yn penderfynu'r swm a'r math o adnoddau y gall athrawon eu defnyddio wrth addysgu disgyblion ag anghenion arbennig (ibid., tud. 14).*

*Dylid defnyddio'r adnoddau mewn ysgolion yn hyblyg ... dylai fod gan ysgolion sawl gradd o ryddid wrth ddefnyddio adnoddau ariannol yn ôl eu dymuniadau a'u safbwyntiau eu hunain. Dylid osgoi biwrocratiaeth i'r graddau helaethaf a dylai disgyblion heb unrhyw anghenion arbennig neu fân anghenion arbennig hefyd allu elwa ar adnoddau mewn ystafelloedd dosbarth neu ysgolion os oes eu hangen neu os y'u dymunir gan yr athro. (ibid., tud. 16).*

'Mae'r trefniadau ariannu a'r cymhellion sydd wedi'u cynnwys yn y trefniadau hyn yn chwarae rôl bendant' (ibid., tud. 17).

*Ymddengys mae model mewnbwn honedig ar lefel ranbarthol (cymunedol) yw'r dewis cyllido mwyaf llwyddiannus. Mewn model o'r fath, dirprwyir cyllidebau ar gyfer anghenion arbennig o lefel ganolog i sefydliadau rhanbarthol (cymunedau, ardaloedd, clystyrau ysgol). Ar lefel ranbarthol, gwneir penderfyniadau o ran sut caiff yr arian ei wario a pha ddisgyblion ddylai elwa ar wasanaethau arbennig ... Felly, mae model datganoledig yn debygol o fod yn fwy cost effeithiol a darparu llai o gyfleoedd ar gyfer mathau annymunol o ymddygiad strategol. Serch hynny, mae'n amlwg fod rhaid i'r llywodraeth ganolog dan sylw bennu'n glir pa nodau mae'n rhaid eu cyflawni (ibid., tud. 18).*

### **Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol**

Mae gweithredu rhaglenni addysg a hyfforddiant galwedigaethol yn dilyn cynllunio tymor hir yn y sector addysg a chydweithrediad gyda phartneriaid cymdeithasol.

*Ceir ffocws ar sefydlu cysylltiadau agosach ... er mwyn datblygu'r cwricwla rhaglenni galwedigaethol ac i gyfateb dulliau addysgol a chynnwys i'r sgiliau y*



*mae eu hangen ym mywyd gwaith ... trefnu a chynnal asesiad o gymwyseddau, cydweithredu wrth sefydlu cynnwys cymwysterau, safonau a chwricwla newydd, a chyfateb rhaglenni Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol i anghenion yr economi (Yr Asiantaeth Ewropeaidd, 2014, tud. 23).*

*Ar lefel unigol, mae dysgwyr gydag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth addysgol arbennig (e.e. technoleg gynorthwyol, dehonglwyr iaith arwyddion, deunyddiau dysgu a baratowyd yn arbennig, ysgrifellau neu fathau eraill o gymorth ymarferol) er mwyn gwneud y cwricwla addysg a hyfforddiant galwedigaethol yn hygyrch (ibid., tud. 15).*

Mae lefelau rhanbarthol (h.y. sirol, comiwnau, cymunedau, taleithiau ffederal) yn allweddol i sicrhau'r cydweddiad gorau rhwng nodau addysgol ac anghenion y farchnad lafur. Mae gan fyrddau ymgynghorol rhanbarthol rôl weithgar wrth ddiweddarau strwythur rhaglenni addysgol o fewn eu cyfrifoldeb rhanbarthol ac wrth gydweithredu gyda phartneriaid cymdeithasol. Chwaraeant rôl bwysig wrth gynnig hyblygrwydd yn llwybrau'r dysgwyr.

Arweinir sefydliadau addysg a hyfforddiant galwedigaethol gan wahanol asiantaethau yn y gwledydd Ewropeaidd, megis awdurdodau lleol, cyrff anllywodraethol, y sector preifat ac ati. Yn y gwledydd Ewropeaidd a ddadansoddwyd, safai'r prif gyfrifoldebau ar gyfer cyllid gydag endidau'r wladwriaeth a llywodraethol ar lefelau rhanbarthol neu gymunedol. At hynny, mae'r meini prawf ariannu ym mwyafrif y gwledydd yn wahanol yn dibynnu ar y math o berchnogaeth (cyhoeddus/preifat) yn y wlad. Mesurau eraill i hyrwyddo cyflogaeth ymhlith dysgwyr gydag AAA yw talu am gost gwasanaeth cyflogaeth a gefnogir, eithriad rhag talu pensiwn ac yswiriant anabled, gwobr am ragori'r cwota, cymhorthion ariannol i weithwyr gydag anabledau sy'n cadarnhau eu hunain fel entrepreneuriaid, gostyngiad mewn nawdd cymdeithasol, gostyngiad yn y dreth i gyflogi dysgwyr ifanc gydag AAA neu wobrau blynyddol ar gyfer arfer da. Ceir cynlluniau hefyd sy'n galluogi dysgwyr i fynd i mewn i'r gweithlu wrth gadw canran o'u taliad lles gwreiddiol (e.e. lwfans anabled), nad yw'n destun trethi nac yswiriant cymdeithasol. Byddai gweithwyr yn cael eu caniatáu hefyd i gadw 'buddiannau eilaidd' (e.e. lwfans tanwydd, cerdyn meddygol) am hyd benodol o amser.

### **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)**

Heb os nac oni bai, gall TGCh hygyrch weithredu fel hwylusydd i gyfranogiad cyfartal mewn gweithgareddau addysgol ar gyfer ystod o ddysgwyr gydag AAA. Amlygodd myfyrwyr gydag AAA bwysigrwydd TGCh yn ystod Gwrandawriad y Senedd Ewropeaidd yn 2011:



*Yn ein gwlad, mae yna sefydliad sy'n darparu deunyddiau arbennig a TG. Gall yr ysgol fenthyg y cymhorthion gan y sefydliad a gall y myfyrwyr hefyd fynd â nhw adref. Pan na fydd angen y cymhorthion hyn rhagor, gall myfyrwyr eraill eu defnyddio yn yr un ysgol neu mewn ysgolion eraill. Mae'n bwysig iawn cael cymhorthion technolegol fel cefnogaeth (Yr Asiantaeth Ewropeaidd, 2012a, tud. 14).*

Fodd bynnag:

*Mae'r ffaith fod yr ymgyrch tuag at degwch mewn addysg trwy gymorth TGCh hygyrch sy'n cael ei gysgodi gan ddatblygiadau economaidd negyddol yn amlygu bod rhaid i bolisiau Ewropeaidd a rhyngwladol troswaol barhau i gymryd arweiniad sefydlog yn y maes hwn (Yr Asiantaeth Ewropeaidd, 2013, tud. 24).*

Yn y cyd-destun hwn, gellir ystyried caffael yn fecanwaith ariannu os ydy hygyrchedd yn rhag-amod annatod. Dylai hygyrchedd fod yn egwyddor arweiniol at ddibenion caffael yr holl nwyddau a gwasanaethau.

*Yn aml iawn, mae mynediad i TGChau priodol mewn gwahanol gyd-destunau dysgu gydol oes – gan gynnwys sefyllfaoedd yn y cartref – yn gofyn am gyfraniad gweithwyr proffesiynol sy'n dod o wahanol feysydd ... Mae hyn yn cynnwys cydlyniad rhwng unigolion, gwasanaethau ac yn aml, polisiau ar gyfer gwahanol sectorau gwaith. Mae ynddo hefyd dulliau hyblyg o ariannu ar gyfer TGCh, gyda phosibiliadau ar gyfer gwneud penderfyniadau ar lefel leol ar wariant sy'n gysylltiedig ag anghenion a ddynodwyd yn lleol (Sefydliad ar gyfer Technoleg Gwybodaeth mewn Addysg UNESCO a'r Asiantaeth Ewropeaidd, 2011, tud. 88).*

I gloi:

Mae angen ystyried pedwar gofyniad mewn perthynas â systemau ariannu i sicrhau bod y systemau hyn yn cefnogi nodau'r polisi addysgol yn llawn.

Mae'r polisi ar ariannu'n cefnogi addysg gynhwysol yn llawn. Mae hyn yn cynnwys datblygu polisiau cyllidol sy'n creu cymhellion, yn hytrach nag anghymhellion, i ddarparu lleoliadau a gwasanaethau cynhwysiant. Wrth i nifer o seiliau eraill fod ar gael ar gyfer ariannu disgyblion gydag AAA, ymddengys mai ariannu fesul pen yw'r mwyaf addawol er mwyn bodloni'r gofyniad datgannedig.

Mae'r polisi ar ariannu'n gwbl seiliedig ar anghenion addysgol. Gallai'r symiau cyllid fesul pen unigol gael eu penderfynu trwy ddadansoddiadau cost sy'n dangos y costau perthynol o wasanaethau myfyrwyr gydag amodau arbennig penodedig.

Mae'r polisi ar ariannu'n hwyluso'n llwyr ymatebion hyblyg, effeithiol ac effeithlon i anghenion. Yn hytrach nag ariannu neu ddarparu adnoddau penodol e.e. mathau o



personél wedi'u penderfynu ymlaen llaw, cyfarpar neu gyfleusterau, mae cyllid fesul pen yn clustnodi adnoddau ariannol, gan hyrwyddo hyblygrwydd mewn defnydd lleol.

Mae'r polisi ar ariannu'n hyrwyddo'n llawn gefnogaeth gan wasanaethau cysylltiedig a chydweithrediad angenrheidiol rhwng sectorau.

At ei gilydd, dylai strwythurau cymhelliad sicrhau bod rhagor o arian ar gael os gosodir plentyn mewn lleoliad cynhwysol, ac mae angen mwy o bwyslais ar ganlyniadau (dim dim ond yr academiaidd).



## DATA DIBYNADWY

### Rhagarweiniad

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau yn ogystal â'r Strategaeth Anabledd Ewropeaidd 2010–2020 ac amcan strategol Addysg a Hyfforddiant 2020 sy'n ymwneud â thegwch mewn addysg, i gyd yn ymddwyn fel cymhellwyr allweddol ar gyfer addysg gynhwysol mewn gwledydd. Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau'n galw ar y Gwladwriaethau sy'n barti i'r Confensiwn wneud y canlynol:

*... ymgymryd â chasglu gwybodaeth briodol, gan gynnwys data ystadegol ac ymchwil, i'w galluogi i ffurfio a gweithredu polisiau i roi grym i'r Confensiwn presennol (Y Cenhedloedd Unedig, 2006, Erthygl 31)*

ac

*... yn unol â'u systemau cyfreithiol a gweinyddol, cynnal, cryfhau, dynodi neu sefydlu yn y Gwladwriaethau sy'n barti i'r confensiwn, fframwaith, gan gynnwys un neu'n fwy o fecanweithiau annibynnol, fel y bo'n briodol, i hyrwyddo, diogelu a monitro gweithrediad y Confensiwn presennol (ibid., Erthygl 33).*

Ceir ymwybyddiaeth gyffredin fod creu polisiau seiliedig ar dystiolaeth yn hollbwysig i ddatblygiad tymor hir systemau addysg gynhwysol. Mae gwneuthurwyr polisi, arbenigwyr casglu data ac ymchwilwyr yn ymwybodol o'r angen i gasglu data ar lefel genedlaethol sydd nid yn unig yn bodloni gofynion canllawiau polisi rhyngwladol ond hefyd yn gweithio o fewn dull ar y cyd er mwyn hyrwyddo synergedd o ymdrechion ar lefelau cenedlaethol a rhyngwladol. Mae gwaith yr asiantaeth wedi dangos bod galw am wybodaeth eang ei hystod fod ar gael i wneuthurwyr polisi ac i wahanol sefydliadau ar lefelau cenedlaethol ac Ewropeaidd er mwyn cymryd amrywiaeth o ddulliau cyflenwol i gasglu data. Fodd bynnag, er bod yr angen am y fath ddata'n glir, nid yw'r dulliau a'r gweithdrefnau gorau i'w gasglu a'i ddadansoddi mor amlwg.

O ganlyniad i waith yr Asiantaeth – yn enwedig gweithgareddau prosiect *Datblygu set o ddangosyddion – ar gyfer addysg gynhwysol yn Ewrop* (Kyriazopoulou a Weber, 2009) a *Mapio Gweithrediad y Polisi ar gyfer Addysg Gynhwysol (MIPIE)* (Yr Asiantaeth Ewropeaidd, 2011a) – daw pum gofyniad polisi allweddol yn ymwneud â chasglu data i'r amlwg wrth ystyried yr angen am dystiolaeth ar addysg gynhwysol ar lefel genedlaethol:

- yr angen i gadarnhau'r gwaith o gasglu data ar lefel genedlaethol mewn cytundebau lefel rhyngwladol ac Ewropeaidd;
- yr angen i ddeall effaith gwahaniaethau yn systemau addysg gwledydd;



- yr angen i ddadansoddi effeithiolrwydd addysg gynhwysol;
- yr angen i gasglu data ddarparu tystiolaeth yn ymwneud â materion sicrhau ansawdd; a'r
- angen i olrhain cynnydd y dysgwyr yn y tymor hir.

Mae angen data ansoddol a meintiol ar wneuthurwyr polisi sy'n rhoi gwybod iddynt am ansawdd addysg dysgwyr gydag anghenion addysgol arbennig. Adlewyrcha'r prif negeseuon hyn argymhelliad canolog *Adroddiad y Byd ar Anabledd* (Sefydliad Iechyd y Byd/Banc y Byd, 2011): yr angen i wledydd ddatblygu systemau casglu data sy'n bodoli ar gyfer data meintiol, ond cynnal hefyd ymchwil ansoddol manwl a phenodol i gost-effeithiolrwydd a materion eraill sy'n gysylltiedig â sicrhau ansawdd.

*Arweinia prosiect Mapio Gweithrediad y Polisi ar gyfer Addysg Gynhwysol at y galw am ddatblygu fframwaith ar y cyd ar gyfer casglu data a fyddai'n adeiladu ar weithdrefnau casglu data cenedlaethol presennol, yn ogystal â chytundebau a gweithdrefnau casglu data rhyngwladol ... Gall tri dimensiwn sy'n sail i fframwaith ar y cyd gael eu dynodi:*

- *Symud i ddull seiliedig ar systemau ar gyfer casglu data yn seiliedig ar gysyniadau a diffiniadau ar y cyd;*
- *Casglu tystiolaeth sy'n arwain at feincnodau meintiol ac ansoddol;*
- *Defnyddio fframwaith aml-lefel i ddadansoddi polisiau ar lefelau cenedlaethol a rhyngwladol (Yr Asiantaeth Ewropeidd, 2011a, tud. 11).*

Mae angen dull o'r fath i gefnogi gwledydd wrth ddatblygu 'casglu data er mwyn monitro hawliau dysgwyr yn ogystal â monitro effeithiolrwydd systemau ar gyfer addysg gynhwysol' (ibid.).

### **Monitro hawliau dysgwyr**

Mewn fframwaith cynhwysfawr i fonitro materion hawliau, rhaid i ddangosyddion meintiol ac ansoddol gael eu dynodi mewn perthynas â nifer o ffactorau:

*(i) Cymryd rhan mewn addysg a hyfforddiant*

Awgryma adroddiad yr Asiantaeth ar *Ymyrraeth mewn Plentyndod Cynnar*:

*Dylai fod gan wneuthurwyr polisi fecanweithiau effeithiol ar waith i werthuso'r galw am wasanaethau Ymyrraeth mewn Plentyndod Cynnar a mecanweithiau effeithiol i wirio ydy'r cyflenwad gwasanaethau'n bodloni'r galw er mwyn gallu cynllunio ar gyfer gwella gwasanaethau. Dylid datblygu ffordd systematig o gasglu a monitro data dibynadwy ar lefelau cenedlaethol (Yr Asiantaeth Ewropeidd, 2010, tud. 39–40).*



Datgan yr adroddiad *Cyfranogiad mewn Addysg Gynhwysol*:

*Er bod llywodraethau cenedlaethol a lleol eisoes yn casglu data sylweddol am addysg, ychydig a wyddys am gyfranogiad ... Ar hyn o bryd, y rhan fwyaf o'r data a gesglir at ddibenion monitro yw data ystadegol wrth ymrestru mewn ysgol a gorffen yno ... Ychydig wledydd sydd â dulliau systematig i gasglu, dadansoddi a dehongli data ansoddol ar gyfranogiad ar lefel unigolyn, ystafell ddosbarth ac ysgol, ond mae adroddiadau hunan-adolygu ac arolygu'n aml yn mynd i'r afael â chwestiynau cyfranogiad a chynhwysiant (Yr Asiantaeth Ewropeaidd, 2011d, tud. 19).*

Amlyga'r adroddiad hwn hefyd rai o'r peryglon posibl sy'n gysylltiedig â chasglu data mewn perthynas â chyfranogiad:

*... gall strwythurau a roddwyd ar waith i fonitro plant gydag AAA weithredu fel rhwystrau i'w cyfranogiad a'u cyflawniad gan nodi bod y plant hyn yn wahanol. Gall canlyniad anfwriadol categoreiddio rhai o'r plant er mwyn monitro'u cyfranogiad gynhyrchu paradocs, gan arwain at wneud trefniadau ar wahân ar gyfer eu haddysg (ibid., tud. 17–18).*

(ii) *Mynediad i gymorth a llety*

Mae tair astudiaeth yr Asiantaeth wedi ystyried gwahanol agweddau ar gefnogaeth i ddysgwyr gydag AAA. Mae adolygiad deunydd darllen y prosiect *Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol* yn dyfynnu Redley (2009):

*Nid oes ffigurau cenedlaethol dibynadwy mewn perthynas â nifer y sefydliadau sy'n cynnig cyflogaeth â chymorth neu niferoedd y bobl gydag anabledau dysgu a gyflogir ynddynt ac nid yw'r llywodraeth yn cymryd rhan yn y broses hon (Yr Asiantaeth Ewropeaidd, 2012f, tud. 41).*

Mae'r astudiaeth ar y cyd y cynhaliodd yr Asiantaeth gyda Sefydliad ar gyfer Technoleg Gwybodaeth mewn Addysg UNESCO, sy'n astudio'r defnydd o TGCh mewn addysg i bobl gydag anabledau yn dadlau:

*Mewn perthynas â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig (2006) yn ogystal â pholisi rhanbarthol (h.y. Ewropeaidd) a chenedlaethol, mae angen gwybodaeth fanylach sy'n gysylltiedig â monitro dangosyddion ansoddol a meintiol a meincnodau ar TGCh mewn addysg i bobl gydag anabledau (Sefydliad ar gyfer Technoleg Gwybodaeth mewn Addysg UNESCO a'r Asiantaeth Ewropeaidd ar gyfer Datblygiad mewn Addysg Anghenion Arbennig, 2011, tud. 93).*

Mewn perthynas â hygyrchedd gwybodaeth ar gyfer dysgu, mae argymhellion prosiect *i-access* yr Asiantaeth yn dadlau:

*Dylai ufudd-dod i [hygyrchedd] bolisi gael ei fonitro'n systematig. Dim ond monitro ufudd-dod gellir ei wneud ar hyn o bryd, ond dylid ei ymestyn ... Mae angen casglu data meintiol ac ansoddol, a ddylai hefyd gynnwys defnyddwyr gwybodaeth hygyrch. Fodd bynnag, rhaid peidio â chyfyngu'r gwaith o fonitro cynnydd i feincnodi rhifyddol, ond dylai gynnwys y posibilrwydd o gasglu enghreifftiau arfer da, a allai wasanaethu fel modelau rôl i wledydd a sefydliadau eraill (Yr Asiantaeth Ewropeaidd, 2012e, tud. 40–41).*

### *(iii) Llwyddiant dysgu a chyfleoedd trawsnewid*

Ystyriodd dau brosiect Asiantaeth mawr y trawsnewid o ysgol i gyflogaeth. Mae'r ddau'n dangos diffyg data dibynadwy yn y maes hwn. Awgrymodd y prosiect *Trawsnewid o Ysgol i Gyflogaeth*:

*Mae data cenedlaethol o wledydd ond yn cynnwys pobl ddi-waith gofrestredig, ond ni chofrestrir canran uchel o bobl gydag anghenion arbennig – nid ydyn nhw hyd yn oed yn cael y cyfle i gael swydd gyntaf (Yr Asiantaeth Ewropeaidd, 2002a, tud. 2).*

Nid yw'r astudiaeth dilyn i fyny (Yr Asiantaeth Ewropeaidd, 2006) yn nodi unrhyw ddatblygiadau yn y maes hwn.

### *(iv) Cyfleoedd ymlyniad*

Mae astudiaeth yr Asiantaeth sy'n canolbwyntio ar amrywiaeth amlddiwylliannol yn amlygu diffyg data mewn perthynas ag un ffactor ymlyniad pwysig – cefndir mewnfudo'r dysgwyr gydag AAA:

*Adroddodd sawl gwlad oedd ynghlwm â'r prosiect fod diffyg data ar ddisgyblion gydag AAA a chefnidir mewnfudo ar hyn o bryd. Mae gan wahanol asiantaethau'r llywodraeth wahanol gyfrifoldebau ac nid oes dull casglu data cydlynol. Mae yna resymau eraill am y diffyg data. Nid yw rhai gwledydd yn cadw ystadegau swyddogol mewn perthynas â tharddiad ethnig pobl ar wahân i'w dinasyddiaeth a'u gwlad enedigol ar yr egwyddor fod prosesu data personol sy'n dynodi hil, tarddiad ethnig, anabled neu gred grefyddol wedi'i wahardd. Mewn gwledydd eraill, nid oes casglu data systematig yn ymwneud â disgyblion gydag AAA neu ddisgyblion gydag AAA a chefnidir mewnfudo ar lefel genedlaethol neu leol (Yr Asiantaeth Ewropeaidd, 2009a, tud. 28).*

## **Monitro effeithiolrwydd systemau ar gyfer addysg gynhwysol**

Mae data sy'n astudio effeithiolrwydd systemau ar gyfer addysg gynhwysol yn ystyried materion cost-effeithiolrwydd, yn ogystal â nifer y meysydd sy'n ymwneud â phrofiadau addysg y dysgwyr: gweithdrefnau asesu cychwynnol, ymglymiad parhaus y dysgwyr a'u teuluoedd mewn profiadau addysgol ac effeithiolrwydd yr





amgylcheddau dysgu wrth oresgyn rhwystrau a chefnogi profiadau dysgu ystyrllon i bob dysgwr.

Mae astudiaeth yr Asiantaeth ar *Asesu mewn Lleoliadau Cynhwysol* yn amlygu bod angen cefnogi ysgolion gyda:

*... sut gellir defnyddio arweiniad ar wybodaeth asesiadau – yn enwedig gwybodaeth asesiadau safonol a gesglir at ddibenion monitro cenedlaethol – i wella darpariaeth ac arfer i bob disgybl, gan gynnwys y rhai gydag AAA (Watkins, 2007, tud. 57).*

Mae'r adroddiad *Codi Cyflawniad i Bob Dysgwr* yn dadlau:

*Er mwyn symud tuag at fwy o degwch mewn addysg, mae angen amrywiaeth o ddangosyddion perfformiad, sy'n gweddu i'r sefyllfa leol ac sy'n canolbwyntio ar fewnbnw ac adnoddau, proses ac allbwn/canlyniadau. Er y dylai gwybodaeth (gan gynnwys data) gael ei defnyddio i dargedu cefnogaeth ac olrhain llwyddiant polisi ac arfer cynhwysol, mae angen gofal nad yw systemau atebolrwydd yn achosi newidiadau amhriodol yn ddiogel (Yr Asiantaeth Ewropeaidd, 2012d, tud. 22).*

Mae'r astudiaeth hon yn amlygu anawsterau posibl gyda hyn:

*Yn yr hinsawdd sydd ohoni, mae datblygu mecanweithiau atebolrwydd priodol a ffyrdd o fesur cyflawniad gwerthfawr a monitro tegwch yn cyflwyno nifer fawr o heriau. Er gwaetha'r ymdrech am ddata caled, rhybuddia Fullan (2011): 'mae ystadegau'n was gwych ond yn feistr ofnadwy' (tud. 127) a phwysleisia Hargreaves a Shirley (2009) yr angen i roi cyfrifoldeb o flaen atebolrwydd. Awgrymant y dylai atebolrwydd 'ymddwyn fel cydwybod trwys samplu ac y dylid cynnal ymosodiad 'ar ormodeddu safoni wedi'i brofi sy'n gwadu amrywiaeth ac yn dinistrio creadigrwydd (tud. 109) (Yr Asiantaeth Ewropeaidd, 2012d, tud. 22).*

O fewn prosiect *Mapio Gweithrediad y Polisi Ar gyfer Addysg Gynhwysol*, dadleuwyd y byddai monitro effeithiolrwydd systemau addysg gynhwysol hefyd yn cynnwys ystyriaeth o effeithiolrwydd addysg i athrawon (Yr Asiantaeth Ewropeaidd, 2011a). Amlyga adroddiad prosiect *Addysg Athrawon ar gyfer Cynhwysiant* nifer o faterion yn ymwneud ag argaeledd data yn y maes hwn. O ran cynrychioli athrawon o grwpiau lleiafrifol:

*Mae'r rhan fwyaf o wledydd nad ydynt yn casglu data'n adrodd yn anecdotaidd ar dangynrychiolaeth pobl gydag anabledau a'r rhai o grwpiau ethnig lleiafrifol ymhlith athrawon dan hyfforddiant ac athrawon cymwysedig ac ymddengys bod y sefyllfa'n debyg ymhlith addysgwyr sy'n athrawon (Yr Asiantaeth Ewropeaidd, 2011b, tud. 20–21).*



Mae'r adroddiad yn dynodi hefyd yr angen am ddata sy'n arwain at newid wedi'i lywio gan dystiolaeth:

*Nodwyd diffyg ymchwil gronol a thystiolaeth empirig graddfa fawr mewn addysg athrawon gan Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (2010) ... dylid cynnal ymchwil i sicrhau corff dystiolaeth perthnasol i hysbysu newid. Amlyga'r enghreifftiau yn yr adroddiad hwn rai materion allweddol ar gyfer ymchwil gan gynnwys:*

- *Effeithiolrwydd gwahanol lwybrau i addysgu;*
- *Dulliau o droi at addysg i athrawon a'r cwricwlwm addysg gychwynnol i athrawon a*
- *Rôl cyrsiau ar wahân, integredig ac wedi'u huno a sut orau i symud ymlaen ar hyd y continwwm tuag at un cwrs addysg gychwynnol i athrawon sy'n paratoi'r holl athrawon ar gyfer amrywiaeth (Yr Asiantaeth Ewropeaidd, 2011b, tud. 64–65).*

Mae prosiect *Mapio Gweithrediad y Polisi ar gyfer Addysg Gynhwysol* yn dadlau:

*Ar lefel ysgol, dylai casglu data:*

- *Ddarparu gwybodaeth sy'n cefnogi athrawon a staff yr ysgol i gynllunio a chyflwyno cefnogaeth a darpariaeth briodol;*
- *Rhoi mewnwelediad clir i'r ffordd y galluogir rhieni a dysgwyr i gymryd rhan yn llawn yn y broses addysgol (Yr Asiantaeth Ewropeaidd, 2011a, tud. 13).*

Er mwyn i hyn fod yn bosibl:

*Mae angen synergeddau ar lefel genedlaethol rhwng rhanddeiliaid allweddol a fyddai'n seiliedig ar resymeg glir ar gyfer casglu data sy'n ystyried data lefel genedlaethol, ranbarthol ac ystafell dosbarth er mwyn i ddata cyffredinol y wlad adlewyrchu arfer yn effeithiol (ibid., tud. 14).*

I gloi, gall darparu data lywio'r gwaith o greu polisiâu'n llwyddiannus ar gyfer addysg gynhwysol. Ceir gofynion cynyddol – ar lefelau rhyngwladol, Ewropeaidd a chenedlaethol – ar gyfer atebolrwydd a chymariaethau 'rhwng ysgolion' a 'rhwng gwledydd' sy'n tyfu. Cyflwynna ymddangosiad 'data mawr' (meta-ddadansoddiadau o setiau data cyfunol a ffynonellau) gyfleoedd, ond heriau go iawn ar gyfer addysg gynhwysol hefyd.

Mae'r galwadau am bolisi seiliedig ar dystiolaeth a dyrannu adnoddau'n amlygu'r angen am ddata ystyrllon sy'n gysylltiedig â phob dysgwr. Mae angen gwybod pa ddysgwyr sy'n derbyn pa wasanaethau, pryd a ble (gan gyfrif pob dysgwr). Mae



angen cael data hefyd ar ansawdd y gwasanaethau a'r canlyniadau maen nhw'n arwain atynt (ystyried arfer).

Mae her fawr ar gyfer casglu data'n gysylltiedig ag osgoi dosbarthu, categorio a labelu dysgwyr er mwyn darparu gwybodaeth am y ddarpariaeth a dderbyniant. Ni ellir anwybyddu 'lluosogrwydd' y diffiniadau sy'n berthnasol i ddysgwyr a 'gwleidyddiaeth' systemau labelu; nac ychwaith yr effeithiau y mae'r systemau labelu a'r diffiniadau hyn yn arwain atynt.

Gofyn y cwestiynau polisi iawn yw'r man cychwyn ar gyfer casglu data sy'n llywio polisi'n arwyddocaol.



## EDRYCH YMLAEN

Diben cyntaf y gynhadledd ym mis Tachwedd 2013 oedd adlewyrchu ar waith yr Asiantaeth dros y degawd diwethaf a'i grynhoi. Mae'r pum neges allweddol a ddisgrifiwyd yn y penodau blaenorol yn amlygu agweddau hollbwysig cyn belled â bod addysg gynhwysol dan sylw. Maen nhw'n seiliedig ar y canlyniadau o ddadansoddiad estynedig o bynciau allweddol, fel y penderfynwyd gan aelod wledydd yr Asiantaeth.

Ail bwrpas y gynhadledd oedd edrych ymlaen, gan archwilio sut gall gwaith yr Asiantaeth gefnogi'r aelod wledydd yn well, eu helpu i wella ansawdd ac effeithiolrwydd eu darpariaeth gynhwysol i ddysgwyr gydag anabledau ac/neu anghenion addysgol arbennig.

Mae'r Asiantaeth yn fodlon helpu gwledydd mewn ffordd fwy cadarn wrth weithredu canlyniadau ein gwaith. Golyga hyn ddarparu argymhellion polisi sy'n fwy uniongyrchol perthnasol i wneuthurwyr polisi er mwyn cefnogi newid a datblygiadau polisi i'r dyfodol.

Mae'r Asiantaeth yn ymwybodol fod y gwaith a gynhaliwyd eisoes yn unol â'r holl fentrau polisi rhyngwladol ac Ewropeaidd ar addysg, tegwch, cyfle cyfartal a hawliau i bobl gydag anabledau ac/neu anghenion addysgol arbennig. Mae gwaith yr Asiantaeth yn darparu argymhellion clir a chydlynol ar sut y gellir rhoi'r polisiau allweddol yn y meysydd hyn ar waith. Dymuna'r Asiantaeth ddarparu gwybodaeth i wledydd am eu cynnydd o ran y nodau a osodwyd ganddynt mewn perthynas ag: (a) targed Addysg a Hyfforddiant 2020 a (b) Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anabledau (2006), yn ogystal ag amryw gyfarwyddebau a chyfathrebiadau'r Undeb Ewropeaidd.

Mae angen arweiniad ar sut gellir gweithredu addysg gynhwysol ar lefel athro/athrawes, dosbarth, ysgol, ardal, cymuned a pholisi cenedlaethol. Gall yr Asiantaeth ddarparu arweiniad i wledydd ar sut gellir gweithredu addysg gynhwysol a sut mae hyn yn effeithio ar ansawdd cyffredinol addysg.

Bydd y trafodaethau yn ystod y gynhadledd, yn ogystal â thrafodaethau manwl yn yr Asiantaeth, yn arwain y cam pellach hwn o waith yr Asiantaeth.

## LLYFRYDDIAETH

Bennett, S. a Gallagher, T.L., 2012. *The Delivery of Education Services for Students who have an Intellectual Disability in the Province of Ontario* [Cyflwyno Gwasanaethau Addysg i Fyfirwyr a chanddynt Anabledd Deallusol yn Nhalaith Ontario]. Toronto: Community Living Ontario

Chapman, C., Ainscow, M., Miles, S. a West, M., 2011. *Leadership that promotes the achievement of students with special educational needs and disabilities* [Arweinyddiaeth sy'n hyrwyddo cyflawniad myfirwyr gydag anghenion addysgol arbennig ac anabledau]. Nottingham: National College for School Leadership

Comisiwn y Cymunedau Ewropeaidd, 2008. *Green Paper – Migration & mobility: challenges and opportunities for EU education systems* [Papur Gwyrdd – Ymfudo a symudedd: heriau a chyfleoedd ar gyfer systemau addysg yr UE]. {SEC(2008) 2173} /\* COM/2008/0423 terfynol \*/ Brwsel: Comisiwn y Cymunedau Ewropeaidd

Cyngor yr Undeb Ewropeaidd, 2010. *Council conclusions on the social dimension of education and training. 3013th EDUCATION, YOUTH AND CULTURE Council meeting Brussels, 11 May 2010* [Casgliadau'r Cyngor ar ddimensiwn cymdeithasol addysg a hyfforddiant. 3013eg Cyfarfod y Cyngor ADDYSG, IECHYD A DIWYLLIANT ym Mrwsel, 11 Mai 2010].

[http://www.consilium.europa.eu/uedocs/cms\\_Data/docs/pressdata/en/educ/114374.pdf](http://www.consilium.europa.eu/uedocs/cms_Data/docs/pressdata/en/educ/114374.pdf) (Mynediad olaf Gorffennaf 2014)

Farrell, P., Dyson, A.S., Polat, F., Hutcheson, G. a Gallannaugh, F., 2007. 'SEN inclusion and pupil achievement in English schools' [Cynhwysiant a chyflawniad disgyblion ag AAA yn ysgolion Lloegr] *Journal of Research in Special Educational Needs*, 7 (3), 172–178

Frilseth, L., 2012. *The Norwegian Model for Education for All in Upper Secondary School* [Yr Enghraifft Norwyaid ar gyfer Addysg i Bawb mewn Ysgolion Uwchradd]. Cyfarwyddiaeth Addysg a Hyfforddiant Norwy. <http://www.european-agency.org/agency-projects/ra4al/ra4al-seminar-pdf/Norway-L-Frilseth.pdf> (Mynediad olaf Gorffennaf 2014)

Fullan, M., 2011. *Change Leader: Learning to do what matters most* [Arweinydd Newid: Dysgu gwneud yr hyn sydd fwyaf o bwys]. San Francisco: Jossey-Bass

de Graaf, G., van Hove, G. a Haveman, M., 2011. 'More academics in regular schools? The effect of regular versus special school placement on academic skills in Dutch primary school students with Down syndrome' [Mwy o academyddion mewn ysgolion rheolaidd? Effaith y rheolaidd yn erbyn lleoliad ysgol arbennig ar sgiliau academaidd myfirwyr ysgolion cynradd yn yr Iseldiroedd a chanddynt Syndrom



Down] *Journal of International Disability Research*, Rhagfyr 2011, 57(1), 21–38. doi: 10.1111/j.1365-2788.2011.01512.x

Hargreaves, A. a Shirley, D., 2009. *The Fourth Way – The inspiring future for educational change* [Y Bedwaredd Ffordd – Dyfodol ysbrydoledig ar gyfer newid addysgol]. Cydgyhoeddiad gyda Chyngor Penaethiaid Ontario a'r Cyngor Datblygu Staff Cenedlaethol. Thousand Oaks, CA: Corwin Press

Kalambouka, A., Farrell, P., Dyson, A. a Kaplan, I., 2005. *The impact of population inclusivity in schools on student outcomes* [Effaith cynwysoldeb y boblogaeth mewn ysgolion ar ganlyniadau myfyrwyr]. Tystiolaeth Ymchwil yn y Llyfrgell Addysg. Llundain: Canolfan EPPI, Uned Ymchwil Gwyddor Gymdeithasol, Yr Athrofa Addysg, Prifysgol Llundain

Kyriazopoulou, M. a Weber, H. (golygyddion), 2009. *Development of a set of indicators – for inclusive education in Europe* [Datblygu set o ddangosyddion – ar gyfer addysg gynhwysol yn Ewrop]. Odense, Denmarc: Yr Asiantaeth Ewropeaidd ar gyfer Datblygiad mewn Addysg Anghenion Arbennig. <http://www.european-agency.org/publications/ereports/development-of-a-set-of-indicators-for-inclusive-education-in-europe/Indicators-EN-with-cover.pdf> (Mynediad olaf Gorffennaf 2014)

MacArthur, J., 2009. *Learning Better Together: Working towards inclusive education in New Zealand schools* [Dysgu'n Well Gyda'n Gilydd: Gweithio tuag at addysg gynhwysol yn ysgolion Seland Newydd]. Wellington: IHC

MacArthur, J., Kelly, B., Sharp, S., a Gaffney, M., 2005. *Participation or exclusion? Disabled children's experiences of life at school* [Cyfranogiad neu eithriad? Profiadau plant anabl o fywyd yn yr ysgol]. Papur a gyflwynwyd yn y Gynhadledd Materion Plant, Dunedin, Seland Newydd, Gorffennaf 2005

Menter, I., Hulme, M., Elliott, D. a Lewin, J., 2010. *Literature Review on Teacher Education in the 21<sup>st</sup> Century* [Adolygiad o Lenyddiaeth ar Addysg Athrawon yn yr 21ain Ganrif]. Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth yr Alban. Caeredin: Llywodraeth yr Alban

Redley, M., 2009. 'Understanding the social exclusion and stalled welfare of citizens with learning disabilities' [Deall allgáu cymdeithasol a lles gohiriedig dinasyddion gydag anabledau dysgu] *Disability & Society*, 24(4), 489–501

Sefydliad Addysgol, Gwyddonol a Diwylliannol y Cenhedloedd Unedig, 2009. *Policy Guidelines on Inclusion in Education* [Canllawiau Polisi ar Gynhwysiant mewn Addysg]. Paris: UNESCO

Sefydliad ar gyfer Technoleg Gwybodaeth mewn Addysg UNESCO a'r Asiantaeth Ewropeaidd ar gyfer Datblygiad mewn Addysg Anghenion Arbennig, 2011. *ICTs in Education for People with Disabilities: Review of innovative practice* [TGCh mewn



Addysg i Bobl gydag Anableddau: Adolygiad o arfer arloesol]. Moscow: Sefydliad ar gyfer Technoleg Gwybodaeth mewn Addysg UNESCO. <http://www.european-agency.org/publications/ereports/ICTs-in-Education-for-People-With-Disabilities/Review-of-Innovative-Practice> (Mynediad olaf Gorffennaf 2014)

Sefydliad Iechyd y Byd/Banc y Byd, 2011. *World Report on Disability* [Adroddiad y Byd ar Anabledd]. Geneva: WHO Press. [http://www.who.int/disabilities/world\\_report/2011/en/index.html](http://www.who.int/disabilities/world_report/2011/en/index.html) (Mynediad olaf Gorffennaf 2014)

Watkins, A. (golygydd), 2007. *Assessment in Inclusive Settings: Key Issues for Policy and Practice* [Asesu mewn Lleoliadau Cynhwysol: Materion Allweddol ar gyfer Polisi ac Arfer]. Odense, Denmarc: Yr Asiantaeth Ewropeaidd ar gyfer Datblygiad mewn Addysg Anghenion Arbennig. <http://www.european-agency.org/publications/ereports/assessment-in-inclusive-settings-key-issues-for-policy-and-practice/assessment-in-inclusive-settings-key-issues-for-policy-and-practice> (Mynediad olaf Gorffennaf 2014)

Wilkinson, R. a Pickett, K., 2010. *The Spirit Level: Why Equality is Better for Everyone* [Y Lefel Ysbrydol: Pam mae Cydraddoldeb yn Well i Bawb]. Llundain: Penguin

Willms, J.D., 2006. *Learning divides: Ten policy questions about the performance and equity of schools and schooling systems* [Gwahaniaethau dysgu: Deg cwestiwn polisi am berfformiad a thegwch ysgolion a systemau addysg]. Montreal: Sefydliad ar gyfer Ystadegau UNESCO

Y Cenhedloedd Unedig, 2006. *Convention on the Rights of Persons with Disabilities* [Confensiwn ar Hawliau Pobl ag Anableddau]. Efrog Newydd: Y Cenhedloedd Unedig

Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, 2011. *PISA in Focus. Improving Performance: Leading from the Bottom* [PISA ar Waith: Gwella Perfformiad: Arwain o'r Gwaelod]. 2011/2 (Mawrth). Paris: Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd

Yr Asiantaeth Ewropeaidd ar gyfer Datblygiad mewn Addysg Anghenion Arbennig, 1999. *Financing of Special Needs Education – A seventeen-country Study of the Relationship between Financing of Special Needs Education and Inclusion* [Ariannu Addysg Anghenion Arbennig – Astudiaeth dwy wlad ar bymtheg o'r Berthynas rhwng Ariannu Addysg Anghenion Arbennig a Chynhwysiant]. Middelfart, Denmarc: Yr Asiantaeth Ewropeaidd ar gyfer Datblygiad mewn Addysg Anghenion Arbennig

Yr Asiantaeth Ewropeaidd ar gyfer Datblygiad mewn Addysg Anghenion Arbennig, 2002a. *Transition from School to Employment. Key Principles and Recommendations for Policy Makers* [Trawsnewid o Ysgol i Gyflogaeth: Egwyddorion ac Argymhellion Allweddol ar gyfer Gwneuthurwyr Polisi]. Middelfart, Denmarc: Yr Asiantaeth



Ewropeaidd ar gyfer Datblygiad mewn Addysg Anghenion Arbennig.  
[http://www.european-agency.org/sites/default/files/transition\\_transition\\_entext.pdf](http://www.european-agency.org/sites/default/files/transition_transition_entext.pdf) (Mynediad olaf Gorffennaf 2014)

Yr Asiantaeth Ewropeaidd ar gyfer Datblygiad mewn Addysg Anghenion Arbennig, 2002b. *Transition from School to Employment. Main problems, issues and options faced by students with special educational needs in 16 European countries. Summary Report* [Trawsnewid o Ysgol i Gyflogaeth. Y prif broblemau, materion a dewisiadau a wynebir gan fyfyrwyr gydag anghenion addysgol arbennig mewn 16 gwlad Ewropeaidd. Adroddiad Cryno]. Middelfart, Denmarc: Yr Asiantaeth Ewropeaidd ar gyfer Datblygiad mewn Addysg Anghenion Arbennig. [http://www.european-agency.org/sites/default/files/transition-from-school-to-employment\\_Transition-en.pdf](http://www.european-agency.org/sites/default/files/transition-from-school-to-employment_Transition-en.pdf) (Mynediad olaf Gorffennaf 2014)

Yr Asiantaeth Ewropeaidd ar gyfer Datblygiad mewn Addysg Anghenion Arbennig, 2003. *Inclusive Education and Classroom Practice. Summary Report* [Addysg Gynhwysol ac Arfer Ystafell Ddosbarth. Adroddiad Cryno]. Odense, Denmarc: Yr Asiantaeth Ewropeaidd ar gyfer Datblygiad mewn Addysg Anghenion Arbennig. <http://www.european-agency.org/publications/ereports/inclusive-education-and-classroom-practices/iecp-en.pdf> (Mynediad olaf Gorffennaf 2014)

Yr Asiantaeth Ewropeaidd ar gyfer Datblygiad mewn Addysg Anghenion Arbennig, 2005. *Inclusive Education and Classroom Practice in Secondary Education. Summary Report* [Addysg Gynhwysol ac Arfer Ystafell Ddosbarth mewn Addysg Uwchradd. Adroddiad Cryno]. Odense, Denmarc: Yr Asiantaeth Ewropeaidd ar gyfer Datblygiad mewn Addysg Anghenion Arbennig. [http://www.european-agency.org/publications/ereports/inclusive-education-and-classroom-practice-in-secondary-education/iecp\\_secondary\\_en.pdf](http://www.european-agency.org/publications/ereports/inclusive-education-and-classroom-practice-in-secondary-education/iecp_secondary_en.pdf) (Mynediad olaf Gorffennaf 2014)

Yr Asiantaeth Ewropeaidd ar gyfer Datblygiad mewn Addysg Anghenion Arbennig, 2006. *Individual Transition Plans: Supporting the Move from School to Employment* [Cynlluniau Trawsnewid Unigol: Cefnogi'r Symudiad o'r Ysgol i Gyflogaeth]. Odense, Denmarc: Yr Asiantaeth Ewropeaidd ar gyfer Datblygiad mewn Addysg Anghenion Arbennig. [http://www.european-agency.org/publications/ereports/individual-transition-plans-supporting-the-move-from-school-to-employment/itp\\_en.pdf](http://www.european-agency.org/publications/ereports/individual-transition-plans-supporting-the-move-from-school-to-employment/itp_en.pdf) (Mynediad olaf Gorffennaf 2014)

Yr Asiantaeth Ewropeaidd ar gyfer Datblygiad mewn Addysg Anghenion Arbennig, 2009a. *Multicultural Diversity and Special Needs Education* [Amrywiaeth Amlddiwylliannol ac Addysg Anghenion Arbennig]. Odense, Denmarc: Yr Asiantaeth Ewropeaidd ar gyfer Datblygiad mewn Addysg Anghenion Arbennig. <http://www.european-agency.org/publications/ereports/multicultural-diversity->





[and-special-needs-education/multicultural-diversity-and-special-needs-education](#)  
(Mynediad olaf Gorffennaf 2014)

Yr Asiantaeth Ewropeaidd ar gyfer Datblygiad mewn Addysg Anghenion Arbennig, 2009b. *Key Principles for Promoting Quality in Inclusive Education – Recommendations for Policy Makers* [Egwyddorion Allweddol ar gyfer Hyrwyddo Ansawdd mewn Addysg Gynhwysol – Argymhellion i Wneuthurwyr Polisi]. Odense, Denmarc: Yr Asiantaeth Ewropeaidd ar gyfer Datblygiad mewn Addysg Anghenion Arbennig. <http://www.european-agency.org/publications/ereports/key-principles-for-promoting-quality-in-inclusive-education/key-principles-EN.pdf> (Mynediad olaf Gorffennaf 2014)

Yr Asiantaeth Ewropeaidd ar gyfer Datblygiad mewn Addysg Anghenion Arbennig, 2010. *Early Childhood Intervention – Progress and Developments 2005–2010* [Ymyrraeth mewn Plentynod Cynnar – Cynnydd a Datblygiadau 2005–2010]. Odense, Denmarc: Yr Asiantaeth Ewropeaidd ar gyfer Datblygiad mewn Addysg Anghenion Arbennig. <http://www.european-agency.org/publications/ereports/early-childhood-intervention-progress-and-developments/ECI-report-EN.pdf> (Mynediad olaf Gorffennaf 2014)

Yr Asiantaeth Ewropeaidd ar gyfer Datblygiad mewn Addysg Anghenion Arbennig, 2011a. *Mapping the Implementation of Policy for Inclusive Education: An exploration of challenges and opportunities for developing indicators* [Mapio Gweithrediad y Polisi ar gyfer Addysg Gynhwysol: Archwilio heriau a chyfleoedd ar gyfer datblygu dangosyddion]. Odense, Denmarc: Yr Asiantaeth Ewropeaidd ar gyfer Datblygiad mewn Addysg Anghenion Arbennig. <http://www.european-agency.org/agency-projects/mapping-the-implementation-of-policy-for-inclusive-education> (Mynediad olaf Gorffennaf 2014)

Yr Asiantaeth Ewropeaidd ar gyfer Datblygiad mewn Addysg Anghenion Arbennig, 2011b. *Teacher Education for Inclusion Across Europe – Challenges and Opportunities* [Addysg Athrawon ar gyfer Cynhwysiant Ar Draws Ewrop – Heriau a Chyfleoedd]. Odense, Denmarc: Yr Asiantaeth Ewropeaidd ar gyfer Datblygiad mewn Addysg Anghenion Arbennig. <http://www.european-agency.org/publications/ereports/te4i-challenges-and-opportunities/te4i-challenges-and-opportunities> (Mynediad olaf Gorffennaf 2014)

Yr Asiantaeth Ewropeaidd ar gyfer Datblygiad mewn Addysg Anghenion Arbennig, 2011c. *Key Principles for Promoting Quality in Inclusive Education – Recommendations for Practice* [Egwyddorion Allweddol ar gyfer Hyrwyddo Ansawdd mewn Addysg Gynhwysol – Argymhellion ar gyfer Arfer]. Odense, Denmarc: Yr Asiantaeth Ewropeaidd ar gyfer Datblygiad mewn Addysg Anghenion Arbennig. <http://www.european-agency.org/publications/ereports/key-principles-for->



[promoting-quality-in-inclusive-education-1/Key-Principles-2011-EN.pdf](#) (Mynediad olaf Gorffennaf 2014)

Yr Asiantaeth Ewropeaidd ar gyfer Datblygiad mewn Addysg Anghenion Arbennig, 2011d. *Participation in Inclusive Education – A Framework for Developing Indicators* [Cyfranogiad mewn Addysg Gynhwysol – Fframwaith ar gyfer Datblygu Dangosyddion]. Odense, Denmarc: Yr Asiantaeth Ewropeaidd ar gyfer Datblygiad mewn Addysg Anghenion Arbennig. <http://www.european-agency.org/publications/ereports/participation-in-inclusive-education-a-framework-for-developing-indicators/Participation-in-Inclusive-Education.pdf> (Mynediad olaf Gorffennaf 2014)

Yr Asiantaeth Ewropeaidd ar gyfer Datblygiad mewn Addysg Anghenion Arbennig, 2012a. *Young Views on Inclusive Education* [Barnau Ifanc ar Addysg Gynhwysol]. Odense, Denmarc: Yr Asiantaeth Ewropeaidd ar gyfer Datblygiad mewn Addysg Anghenion Arbennig. <http://www.european-agency.org/publications/ereports/young-views-on-inclusive-education/YoungViews-2012EN.pdf> (Mynediad olaf Gorffennaf 2014)

Yr Asiantaeth Ewropeaidd ar gyfer Datblygiad mewn Addysg Anghenion Arbennig, 2012b. *Profile of Inclusive Teachers* [Proffil Athrawon Cynhwysol]. Odense, Denmarc: Yr Asiantaeth Ewropeaidd ar gyfer Datblygiad mewn Addysg Anghenion Arbennig. <http://www.european-agency.org/agency-projects/Teacher-Education-for-Inclusion/Profile-of-Inclusive-Teachers.pdf> (Mynediad olaf Gorffennaf 2014)

Yr Asiantaeth Ewropeaidd ar gyfer Datblygiad mewn Addysg Anghenion Arbennig, 2012c. *Raising Achievement for All Learners – Quality in Inclusive Education. Report on the conference held in Odense, Denmark on 13<sup>th</sup>–15<sup>th</sup> June 2012* [Codi Cyflawniad i Bob Dysgwr – Ansawdd mewn Addysg Gynhwysol. Adroddiad ar y gynhadledd a gynhaliwyd yn Odense, Denmarc ar 13–15 Mehefin 2012]. Odense, Denmarc: Yr Asiantaeth Ewropeaidd ar gyfer Datblygiad mewn Addysg Anghenion Arbennig. <http://www.european-agency.org/sites/default/files/RA4AL-conference-report.pdf> (Mynediad olaf Gorffennaf 2014)

Yr Asiantaeth Ewropeaidd ar gyfer Datblygiad mewn Addysg Anghenion Arbennig, 2012d. *Raising Achievement for All Learners – Quality in Inclusive Education* [Codi Cyflawniad i Bob Dysgwr – Ansawdd mewn Addysg Gynhwysol]. Odense, Denmarc: Yr Asiantaeth Ewropeaidd ar gyfer Datblygiad mewn Addysg Anghenion Arbennig. <http://www.european-agency.org/publications/ereports/ra4al-synthesis-report/RA4AL-synthesis-report.pdf> (Mynediad olaf Gorffennaf 2014)

Yr Asiantaeth Ewropeaidd ar gyfer Datblygiad mewn Addysg Anghenion Arbennig, 2012e. *Promoting Accessible Information for Lifelong Learning: Recommendations and findings of the i-access project* [Hyrwyddo Gwybodaeth Hygyrch ar gyfer Dysgu



Gydol Oes: Argymhellion a chanfyddiadau prosiect i-access]. Odense, Denmarc: Yr Asiantaeth Ewropeaidd ar gyfer Datblygiad mewn Addysg Anghenion Arbennig. <http://www.european-agency.org/publications/ereports/i-access/i-access-report.pdf> (Mynediad olaf Gorffennaf 2014)

Yr Asiantaeth Ewropeaidd ar gyfer Datblygiad mewn Addysg Anghenion Arbennig, 2012f. *Vocational Education and Training: Policy and Practice in the field of Special Needs Education – Literature Review* [Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol: Polisi ac Arfer ym maes Addysg Anghenion Arbennig – Adolygiad o Lenyddiaeth]. Odense, Denmarc: Yr Asiantaeth Ewropeaidd ar gyfer Datblygiad mewn Addysg Anghenion Arbennig. <http://www.european-agency.org/agency-projects/vocational-education-and-training/vet-files/VET-LiteratureReview.pdf> (Mynediad olaf Gorffennaf 2014)

Yr Asiantaeth Ewropeaidd ar gyfer Datblygiad mewn Addysg Anghenion Arbennig, 2012g. *Teacher Education for Inclusion: Project Recommendations linked to Sources of Evidence* [Addysg Athrawon ar gyfer Cynhwysiant: Argymhellion y Prosiect yn gysylltiedig â Ffynonellau Tystiolaeth]. Odense, Denmarc: Yr Asiantaeth Ewropeaidd ar gyfer Datblygiad mewn Addysg Anghenion Arbennig. <http://www.european-agency.org/agency-projects/Teacher-Education-for-Inclusion/sources-of-evidence.pdf> (Mynediad olaf Gorffennaf 2014)

Yr Asiantaeth Ewropeaidd ar gyfer Datblygiad mewn Addysg Anghenion Arbennig, 2013. *European and International Policy Supporting ICT for Inclusion* [Polisi Ewropeaidd a Rhyngwladol sy'n Cefnogi TGCh ar gyfer Cynhwysiant]. Odense, Denmarc: Yr Asiantaeth Ewropeaidd ar gyfer Datblygiad mewn Addysg Anghenion Arbennig. [http://www.european-agency.org/sites/default/files/european-and-international-policy-supporting-ict-for-inclusion\\_policy-supporting-ict-for-inclusion.pdf](http://www.european-agency.org/sites/default/files/european-and-international-policy-supporting-ict-for-inclusion_policy-supporting-ict-for-inclusion.pdf) (Mynediad olaf Gorffennaf 2014)

Yr Asiantaeth Ewropeaidd dros Anghenion Arbennig ac Addysg Gynhwysol, 2014. *Vocational Education and Training – Summary of Country Information* [Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol – Crynodeb o Wybodaeth y Wlad]. Odense, Denmarc: Yr Asiantaeth Ewropeaidd dros Anghenion Arbennig ac Addysg Gynhwysol. [http://www.european-agency.org/sites/default/files/VET Summary of Country information 2014.pdf](http://www.european-agency.org/sites/default/files/VET%20Summary%20of%20Country%20information%202014.pdf) (Mynediad olaf Gorffennaf 2014)



# CY

Ysgrifenyddiaeth:

Østre Stationsvej 33  
DK-5000  
Odense C  
Denmarc  
Ffôn: +45 64 41 00 20  
[secretariat@european-agency.org](mailto:secretariat@european-agency.org)

Swyddfa Brwsel:

Rue Montoyer, 21  
BE-1000  
Brwsel  
Gwlad Belg  
Ffôn: +32 2 213 62 80  
[brussels.office@european-agency.org](mailto:brussels.office@european-agency.org)

[www.european-agency.org](http://www.european-agency.org)

